



Arferion cynadleddau amddiffyn plant yn ystod COVID-19

Myfyrdodau a phrofiadau (ymgyngoriad cyflym Medi–Hydref 2020)

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae cynadleddau amddiffyn plant yn gam allweddol o'r system amddiffyn plant yng Nghymru a Lloegr, pan fydd gweithwyr proffesiynol yn dod at ei gilydd i amlygu a mynd i'r afael â phryderon difrifol ynglŷn â cham-drin plant ac esgeulustod sydd wedi peri iddynt gredu bod plentyn yn dioddef niwed sylweddol neu'n debygol o'i ddiodef. Mae'n rhaid i'r holl rieni ac unigolion sydd â chyfrifoldeb rhieni, yn ogystal ag aelodau'r teulu sy'n ymwneud â'r plentyn, gael eu gwahodd i gynadleddau oni bai bod rheswm da i'w heithrio. Ceir gwahodd y plentyn i fynychu hefyd, yn dibynnu ar lefel ei ddealltwriaeth, er bod hyn yn anarferol.

Ers dechrau'r pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig, bu'n rhaid i weithwyr proffesiynol a theuluoedd addasu'n gyflym i gynadleddau o bell neu gynadleddau lle gweithredir mesurau cadw pellter cymdeithasol. Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i oblygiadau ymarferol y newidiadau hyn ac yn cynnig pwyntiau i fyfyrion arnynt.

Roedd y gwaith ymchwil, a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Hydref 2020, yn cynnwys arolwg ar-lein a chyfres o gyfweiliadau ffôn ag aelodau teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae rhestr lawn o gwestiynau'r arolwg ar gael yn: www.nuffieldfjo.org.uk/resource/child-protection-conference-practice-covid-19

Awduron

- Mae Dr Mary Baginsky yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn Uned Ymchwil y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol NIHR yng Ngholeg y Brenin, Llundain.
- Mae Jude Eyre yn Gyfarwyddwr Cyswllt Strategaeth a Chyflawni yn Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.
- Mae Alice Roe yn ymchwilydd yn Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Diolchiadau

Hoffai'r awduron ddiolch i'r holl unigolion ac asiantaethau a roddodd gymorth yn ystod y cam datblygu ac a helpodd i ledaenu'r arolwg. Yn arbennig:

- ATD Fourth World
- Y Grŵp Hawliau'r Teulu
- Home-Start Sutton
- Y Gymdeithas Swyddogion Adolygu Annibynnol Genedlaethol (NAIRO)
- Y Bartneriaeth Rheolwyr Swyddogion Adolygu Annibynnol Genedlaethol (NIROMP)
- Dechreuadau Newydd
- Dr Sam Clutton
- Sally Ann Jenkins
- Annie Raff
- Karen Squillino
- Pam Miller
- Dan Jones
- Andy Bilson
- Tracey Fox

Hoffem hefyd ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr arolwg a chyfweiliadau na allwn eu henwi am resymau cyfrinachedd.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Lisa Harker a Mary Ryan am eu cyngor ar amryw adegau allweddol, ac i'r Athro Jill Manthorpe am ei sylwadau ar ddrafft cynharach.

Yn olaf, diolch yn fawr i Ann Banks o First Impressions a drawsgrifiodd gynifer o recordiadau'n gyflym ac yn gywir i fodloni ein terfynau amser, ac i Trosol am eu cymorth arbenigol wrth gyfieithu'r adroddiad terfynol.

Cyfeiriad argymelledig

Baginsky, M., Eyre, J. a Roe, A. (2020). *Arferion cynadleddau amddiffyn plant yn ystod COVID-19. Myfyrdodau a phrofiadau (ymgyngoriad cyflym Medi – Hydref 2020)*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Ynglŷn ag Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant trwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Gan ymdrin â chyfraith gyhoeddus a phreifat, mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn darparu gwaith dadansoddi ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llysoedd teulu.

Sefydlwyd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusenol annibynnol sy'n ceisio hybu lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny'n bennaf ym meysydd addysg, lles, a chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biooeseg Nuffield.

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, rhai Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na'r Sefydliad.

Rhagfyr 2020.

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2020
28 Bedford Square, Llundain WC1B 3JS Ff: 020 7631 0566
Elusen gofrestrdig 206601
nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	1
Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar gynadleddau amddiffyn plant?	1
Beth yw'r manteision a'r anfanteision o safbwynt gweithwyr proffesiynol?	1
Beth yw profiadau rhieni a theuluoedd?	2
Myfyrdodau	2
1. Cyflwyniad	3
Beth yw cynadleddau amddiffyn plant?	4
Yr hyn a wnaethom	5
2. Cynnal cynadleddau amddiffyn plant yn ystod COVID-19	7
Sut mae cynadleddau wedi cael eu cynnal?	7
'Cynadleddau nad ydynt wir yn gynadleddau'	9
Cynadleddau wyneb yn wyneb	10
Cynadleddau hybrid	10
3. Manteision ac anfanteision y newidiadau i blant, rhieni a theuluoedd, a gweithwyr proffesiynol	12
Plant	12
Rhieni a theuluoedd	14
Gweithwyr proffesiynol	25
4. Themâu trawstorri	33
Cyfrinachedd	33
Pryderon am ymddygiad a cholli ymdeimlad o ddifrifoldeb	34
Diogelwch	36
5. Effaith COVID-19 ar gynllunio cyn ac ar ôl cynhadledd	39
Cyn cynhadledd: paratoi	39
Ar ôl cynhadledd: cynlluniau a phenderfyniadau amddiffyn plant	43
6. Myfyrdodau	48
Fformatau'r dyfodol	48
Sicrhau cyfranogiad ystyrion gan rieni ac aelodau teulu	49
Yr angen i ddadlau, adolygu, a myfyrio	50
Cyfeiriadau	52

Crynodeb gweithredol

Mae cynadleddau amddiffyn plant yn gam allweddol o'r system amddiffyn plant. Nod yr ymgynghoriad cyflym hwn, a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Hydref 2020, yw archwilio sut mae arferion wedi newid yn ystod y pandemig COVID-19, a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar y plant, y teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig. Roedd yn cynnwys arolwg ar-lein a chyfres o gyfweiliadau.

Ymatebodd 492 o weithwyr proffesiynol i'r arolwg a chafwyd ymatebwyr o 108 o'r 151 o awdurdodau lleol yn Lloegr ac 16 o'r 22 yng Nghymru. Cyfwelwyd â 52 o'r gweithwyr proffesiynol hefyd. Ymatebodd 24 o rieni i'r arolwg a chyfwelwyd â 14 ohonynt.

Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar gynadleddau amddiffyn plant?

Awgrymodd yr ymatebion i'r arolwg fod cynadleddau amddiffyn plant yn cael eu cynnal trwy fideo neu dros y ffôn yn bennaf, tra bod lleiafrif sylweddol o weithwyr proffesiynol wedi mynychu o leiaf un gynhadledd 'hybrid', lle'r oedd rhai pobl wedi mynychu'n bersonol ac eraill wedi ymuno dros y ffôn neu drwy fideo.

Rhoddyd rhai enghreifftiau o gynadleddau'n cael eu disodli â chyfres o sgysiau ffôn dwyochrog heb gyfle i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol drafod pryderon gyda'i gilydd.

Beth yw'r manteision a'r anfanteision o safbwynt gweithwyr proffesiynol?

At ei gilydd, yn ôl gweithwyr proffesiynol, mae'r nodweddion cadarnhaol a negyddol sy'n gysylltiedig â chynadleddau amddiffyn plant o bell yn eithaf cytbwys. Roedd bron hanner o'r gweithwyr proffesiynol yn credu eu bod yn well, roedd 35% yn credu eu bod yn waeth, ac roedd 17% yn credu eu bod yr un fath neu fod y manteision a'r anfanteision yn gytbwys.

Dyma'r prif fanteision a amlygwyd:

- gwell presenoldeb gan ystod ehangach o weithwyr proffesiynol, a gwell ymgysylltiad ganddynt, yn ogystal â chyfleustra o ran arbed amser
- roedd rhai o'r farn bod cynadleddau amddiffyn plant yn llai bygythiol i rieni.

Beth yw cynhadledd amddiffyn plant?

Mae cynadleddau amddiffyn plant yn gam allweddol o'r system amddiffyn plant yng Nghymru a Lloegr. Mae gweithwyr proffesiynol, rhieni plentyn, ac weithiau aelodau eraill o'r teulu a/neu'r plentyn ei hun yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.

Bydd awdurdod lleol yn galw cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol pan fydd wedi ymchwilio i bryderon ynglŷn â cham-drin plant ac esgeulustod sydd wedi peri iddo gredu bod plentyn yn dioddef niwed sylweddol, neu'n debygol o'i ddiodeff. Cadeirir y gynhadledd gan gadeirydd annibynnol – rhywun sy'n gweithio i'r awdurdod lleol ond nad yw'n ymwneud â'r achos dan sylw. Mae'r gynhadledd yn dwyn ynghyd staff o wahanol asiantaethau i ystyried y wybodaeth a gafwyd a'r asesiad a gynhaliwyd.

Os penderfynir bod plentyn yn dioddef niwed sylweddol, neu'n debygol o'i ddiodeff, mae'r rhai sy'n mynychu'r gynhadledd yn datblygu cynllun i geisio lleihau'r risg i'r plentyn. Yng Nghymru, maen nhw hefyd yn penderfynu p'un a ddylai enw'r plentyn gael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant. Yn Lloegr, nid yw cofrestrau amddiffyn plant wedi bodoli ers 2008, ond mae awdurdodau lleol yn cynnal rhestr o'r holl blant sy'n byw yn eu hardaloedd sydd mewn perygl parhaus o niwed sylweddol ac y mae cynllun amddiffyn plant ar waith ar eu cyfer.

Mae cynhadledd adolygu amddiffyn plant yn asesu p'un a yw plentyn yn parhau i ddiodeff niwed sylweddol, neu'n debygol o barhau i'w ddiodeff, a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun amddiffyn plant. Cynhelir y gynhadledd adolygu gyntaf dri mis ar ôl y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Sefydli'r grŵp craidd hefyd, sy'n cynnwys y gweithwyr proffesiynol allweddol sy'n ymwneud â'r plentyn a'r teulu; mae'n rhaid i'r grŵp hwn gynnal ei gyfarfod cyntaf o fewn 10 niwrnod gwaith o'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol.

Dyma'r prif anfanteision o safbwynt gweithwyr proffesiynol:

- cyfyngiadau o ran y cyfleoedd prin i drafod a myfyrio
- problemau â thechnoleg
- colli ymdeimlad o ddifrifoldeb
- materion yn ymwneud ag ymgysylltiad rhieni – mae hyn yn cynnwys rhieni nad oeddent bob amser yn gallu deall beth oedd yn digwydd ac a oedd heb baratoi neu gael eu cefnogi i gymryd rhan yn llawn – amlygwyd materion penodol ar gyfer rhieni ag anawsterau dysgu ac anghenion ieithyddol neu gyfathrebu
- pryderon trosfwaol ynglŷn â chyfrinachedd a diogelwch.

Er bod enghreifftiau o sut oedd rhai ymarferwyr wedi gweithio'n galed i gynyddu cyfranogiad i'r eithaf, roedd tystiolaeth hefyd y gallai'r awydd i gadw'r system 'ar y trywydd iawn' fod wedi peryglu tegwch a pharch.

Beth yw profiadau rhieni a theuluoedd?

Roedd y sampl fach o rieni a ymatebodd i'r arolwg neu a gyfwelwyd yn llai cadarnhaol o lawer na'r gweithwyr proffesiynol. Dywedodd hanner nad oeddent wedi cael cyfle i siarad ag unrhyw un cyn y gynhadledd, nid oedd dwy ran o dair wedi cael adroddiadau proffesiynol cyn y gynhadledd, a dim ond un rhan o bump a ddywedodd fod safbwyntiau plant wedi cael eu hysgrifennu a'u rhannu gyda'r rhai a oedd yn mynychu'r gynhadledd. Roedd y rhan fwyaf o rieni wedi ymuno dros y ffôn hyd yn oed pan oedd gweithwyr proffesiynol wedi ymuno trwy fideo. Dywedodd yr holl rieni a gyfwelwyd y byddai cynhadledd wyneb yn wyneb wedi bod yn well ganddynt.

Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r effaith y gallai heriau yn y system amddiffyn plant ehangach fod yn ei chael ar gynadleddau amddiffyn plant. Mae'r rhain yn cynnwys heriau yn ymwneud ag asesiadau a gwblhawyd gyda gwybodaeth gyfyngedig iawn, a ffurfio cynlluniau amddiffyn plant mewn amgylchiadau lle nad oedd gwasanaethau cymorth yn gweithredu'n aml.

Myfyrdodau

Roedd y gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd yn credu'n gryf bod cynadleddau amddiffyn plant yn annhebygol o ddychwelyd i'r model wyneb yn wyneb 'arferol' lle y byddai'r holl weithwyr proffesiynol yn yr un ystafell.

Roedd llawer o weithwyr proffesiynol o'r farn mai cynadleddau hybrid oedd y ffordd orau, o bosibl, o gadw rhai o fanteision cynadleddau 'o bell' ar yr un pryd â mynd i'r afael â'r anfanteision, yn enwedig yn ymwneud â sicrhau cyfranogiad ystyrlon gan aelodau'r teulu. Fodd bynnag, gwnaethant nodi y gallai hyn olygu bod angen buddsoddi mewn technoleg briodol.

Roedd camau eraill a allai gynyddu llwyddiant cynadleddau yn cynnwys amlygu anghenion aelodau'r teulu o flaen llaw, yn enwedig o ran technoleg a gofal plant, yn ogystal ag unrhyw anawsterau cyfathrebu. Ystyriwyd hefyd ei bod yn bwysig sicrhau bod rhieni'n gallu siarad â gweithwyr cymdeithasol a chadeiryddion cyn y gynhadledd.

Roedd yr ymatebion yn awgrymu bod elfennau o'r ffyrdd newydd o weithio yma i aros. O ystyried y pryderon a godwyd yn yr adroddiad hwn, mae angen i fwy o waith ymchwil gael ei wneud ac i ardaloedd lleol adolygu eu harferion, gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau aelodau'r teulu a phlant.

1. Cyflwyniad

Mae cynadleddau amddiffyn plant yn gam allweddol o'r system amddiffyn plant yng Nghymru a Lloegr. Mae gweithwyr proffesiynol, rhieni plentyn, ac weithiau aelodau eraill o'r teulu a/neu'r plentyn ei hun yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Maen nhw'n rhoi cyfle i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol ddod at ei gilydd i amlygu a mynd i'r afael â phryderon difrifol. Mae'r hyn sy'n digwydd yn rhan o gynadleddau amddiffyn plant, ac unrhyw gynllun amddiffyn plant dilynol, yn cynrychioli trobwynt posibl. Pan fydd pethau'n mynd yn dda, mae'n cadarnhau nad oedd y pryderon mor ddifrifol ag y tybiwyd yn wreiddiol, neu fod y cymorth a roddwyd a'r camau a gymerwyd trwy'r cynllun wedi arwain at leihau'r risgiau a amlygwyd. Pan nad yw pethau'n mynd yn dda, ac mae'r risgiau wedi aros yr un fath neu gynyddu, gall hyn ddechrau'r llwybr i'r system cyfiawnder teuluol. Dyma'r rhesymau pam mae arferion effeithiol, o ansawdd uchel, mor bwysig wrth gynnal cynadleddau amddiffyn plant.

Pan ddaeth cyfyngiadau symud i rym yn y Deyrnas Unedig ym mis Mawrth 2020, wynebodd gweithwyr proffesiynol a theuluoedd y dasg newydd ac anodd iawn o geisio cynnal y cynadleddau hyn o bell neu gyda mesurau sylweddol i gadw pellter cymdeithasol. Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield i ymchwilio i oblygiadau ymarferol hyn a beth ellid ei ddysgu ar gyfer y dyfodol. Amlygodd gwaith ymchwil blaenorol gan yr Arsyllfa rai o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu teuluoedd yn y system cyfiawnder teuluol wrth gynnal achosion llys teulu o bell, a mynegodd rhai o'r ymatebwyr i'r gwaith ymchwil hwnnw bryderon ynglŷn â goblygiadau cyfathrebu 'o bell' ar gam cynharach yn y system amddiffyn plant (Ryan et al. 2020). Roedd yr Arsyllfa'n awyddus i ddeall sut oedd pwysau COVID-19 wedi effeithio ar arferion ar gam cynharach.

Archwiliodd gwaith ymchwil a gynhaliwyd ar draws 15 adran gwasanaethau i blant yn Lloegr sut oeddent yn ymdopi â COVID-19 yn ystod misoedd cynnar y pandemig rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020 (Baginsky a Manthorpe 2020a). Amlygodd hyn fod yr holl ardaloedd wedi parhau i gynnal cynadleddau amddiffyn plant, weithiau ar ôl cyfnod byr tra bod trefniadau'n cael eu sefydlu i'w cynnal yn wahanol. Roedd gwaith ymchwil ychwanegol ar sut oedd trefniadau amlasiantaethol mewn 5 o'r 15 yn gweithredu yn ystod y cyfnod hwn wedi caniatáu ar gyfer cynnal archwiliad cyfyngedig o gynadleddau amddiffyn plant o dan amodau COVID-19, ond fel un o ystod eang o bynciau a archwiliwyd (Baginsky a Manthorpe 2020b).

Roedd y gwaith ymchwil presennol yn cynnig cyfle i edrych ar gynadleddau amddiffyn plant yn fanylach. Roedd yn cynnwys arolwg ar-lein a chyfres o gyfweiliadau ffôn ag aelodau teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Fe'i cynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr. Cafodd y gwaith ymchwil gymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Coleg y Brenin, Llundain (HR-19/20-20860).

Roedd y gwaith ymchwil presennol yn canolbwyntio ar sut oedd cynadleddau eu hunain yn cael eu cynnal a'u profi gan aelodau teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, mae'r gynhadledd, wrth gwrs, yn rhan o broses ehangach sy'n effeithio ar ganlyniadau i deuluoedd a phlant. Mae llwyddiant cynhadledd yn debygol o gael ei lywio gan yr hyn sy'n digwydd cyn iddi gael ei chynnal, ac mae canlyniadau i blant a'u teuluoedd yn cael eu pennu trwy ddatblygu'r cynllun dilynol. Ystyrir effaith COVID-19 ar baratoi cyn y gynhadledd (gan gynnwys adroddiadau cynhadledd) a chynlluniau amddiffyn plant ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn.

Beth yw cynadleddau amddiffyn plant?

Bydd awdurdod lleol yn galw cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol pan fydd wedi ymchwilio i bryderon ynglŷn â cham-drin plant ac esgeulustod.¹ Cadeirir y gynhadledd gan gadeirydd annibynnol – rhywun sy'n gweithio i'r awdurdod lleol ond nad yw'n ymwneud â'r achos dan sylw. Mae'r gynhadledd yn dwyn ynghyd staff o wahanol asiantaethau i ystyried y wybodaeth a gafwyd a'r asesiad a gynhaliwyd. Mae'r rhai sy'n mynychu'r gynhadledd yn ystyried:

- p'un a yw plentyn wedi dioddef niwed sylweddol neu mewn perygl o niwed sylweddol yn y dyfodol
- anghenion datblygiadol y plentyn, ochr yn ochr â gallu'r rhieni i ymateb i'r anghenion hyn i gadw'r plentyn yn ddiogel
- yr hyn sy'n angenrheidiol i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn.

Os penderfynir bod plentyn yn dioddef niwed sylweddol, neu'n debygol o'i ddioddef, mae'r rhai sy'n mynychu'r gynhadledd yn datblygu cynllun i geisio lleihau'r risg i'r plentyn. Yng Nghymru, maen nhw hefyd yn penderfynu p'un a ddylai enw'r plentyn gael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant. Yn Lloegr, nid yw cofrestrau amddiffyn plant wedi bodoli ers 2008, ond mae awdurdodau lleol yn cynnal rhestr o'r holl blant sy'n byw yn eu hardaloedd sydd mewn perygl parhaus o niwed sylweddol ac y mae cynllun amddiffyn plant ar waith ar eu cyfer.

Anogir rhieni a gofalwyr i fynychu a chymryd rhan mewn cynadleddau, ac felly hefyd y plentyn os yw'n ddigon hen i ddeall beth sy'n digwydd. Amlygwyd cyfranogiad rhieni fel rhan annatod o'r gynhadledd yn y canllawiau statudol *Gweithio gyda'n Gilydd a gyhoeddwyd ar ôl i Ddeddf Plant 1989 ddod i rym*. Mae'r canllawiau statudol *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant (2018)* yn amlinellu'r broses ar gyfer ymchwiliadau a chynadleddau amddiffyn plant. Mae'r canllawiau'n adlewyrchu un o egwyddorion sylfaenol Deddf Plant 1989, sef gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd. Mae'r gofyniad i ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael ei fynnu gan a.17 (4) Deddf Plant 1989.

Mae cynhadledd adolygu amddiffyn plant yn asesu p'un a yw plentyn yn parhau i ddioddef niwed sylweddol, neu'n debygol o barhau i'w ddioddef, a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun amddiffyn plant. Cynhelir y gynhadledd adolygu gyntaf dri mis ar ôl y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Sefydlir grŵp craidd hefyd, sy'n cynnwys y gweithwyr proffesiynol allweddol sy'n ymwneud â'r plentyn a'r teulu; mae'n rhaid i'r grŵp hwn gynnal ei gyfarfod cyntaf o fewn 10 niwrnod gwaith o'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. *Yn yr astudiaeth hon, ni wahaniaethir fel arfer rhwng cynadleddau cychwynnol ac adolygu, ac er y cyfeiriwyd at grwpiau craidd, ni archwiliwyd nhw'n benodol yn rhan o'r gwaith ymchwil.*

Ni ddylid bychanu pwysigrwydd cynadleddau amddiffyn plant a'r cynlluniau sy'n cyd-fynd â nhw. Cynhelir cynadleddau pan fydd pryderon difrifol am blentyn. Os oes sail dda i'r pryderon hynny ac ni roddir sylw iddynt, gallai'r goblygiadau i'r plentyn hwnnw fod yn ddifrifol iawn. Os rhoddir cynllun ar waith ac ni wneir digon o gynnydd yn ei erbyn, gallai gwaith cyn-achos gael ei gychwyn gan yr awdurdod lleol ac fe allai hyn arwain at gychwyn achos gofal.

¹ Gweler a.31 Deddf Plant 1989.

Yr hyn a wnaethom

Gwaith cwmpasu


Cynhaliwyd deg cyfweiliad cwmpasu â gweithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau sy'n cyfrannu at gynadleddau amddiffyn plant i lywio datblygiad yr arolwg ar-lein. Roedd y rhain yn cynnwys gofal cymdeithasol i blant, iechyd (gwasanaethau'r GIG mewn gofal sylfaenol neu eilaidd), yr heddlu, eiriolwyr, a'r sector gwirfoddol. Cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd â thri rhiant a grŵp ffocws a fynychwyd gan chwe rhiant; roedd gan yr holl rieni dan sylw brofiad o gynadleddau amddiffyn plant, er hynny nid yn ystod y pandemig. Cyfrannodd yr holl gyfweiliadau at ddatblygu arolwg ar-lein. Rhoddodd y rhieni adborth ar gwestiynau'r arolwg a fwrriadwyd ar gyfer rhieni hefyd.

Arolwg ar-lein

Defnyddiwyd yr arolwg ar-lein i ymgynghori ag aelodau teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ynglŷn â'u profiadau o gynadleddau amddiffyn plant yn ystod y pandemig COVID-19. Roedd yr arolwg ar agor rhwng 23 Medi ac 16 Hydref 2020. Yn ogystal â'i hyrwyddo trwy wefan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, cyfryngau cymdeithasol, a chysylltiadau proffesiynol, roedd sawl sefydliad wedi tynnu sylw eu haelodau ato a/neu wedi'i ddsbarthu. Anfonwyd dolen i'r arolwg trwy neges e-bost at fwy nag 80 o sefydliadau ac unigolion hefyd.

Derbyniwyd cyfanswm o 492 o ymatebion dilys gan weithwyr proffesiynol,² a chafwyd y niferoedd uchaf gan weithwyr iechyd proffesiynol (25%), cadeiryddion cynadleddau (24%)³ a gweithwyr cymdeithasol (17%).

Ffigur 1: Proffesiwn a rôl yr ymatebwyr



Sylwer: Mae 'Gweithwyr iechyd proffesiynol' yn cynnwys ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgolion, bydwragedd, meddygon teulu, a staff iechyd meddwl. Mae 'Eraill' yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol anstatudol, tai, cam-drin domestig, a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol.

² Dechreuodd 37 o weithwyr proffesiynol eraill gwblhau'r arolwg, ond ni wnaethant fwrw ymlaen ag ef gan nad oeddent wedi mynychu cynhadledd yn ystod y cyfnod dan sylw.

³ Cyfunwyd yr ymatebion gan reolwyr cadeiryddion cynadleddau amddiffyn plant â'r rhai hynny gan gadeiryddion cynadleddau.

Fel y gellid disgwyl, cadeiryddion cynadleddau oedd wedi mynychu'r nifer fwyaf o gynadleddau yn ystod y cyfnod, ac roedd ychydig dros dri chwarter wedi cadeirio mwy nag 20 o gynadleddau; ar ôl cadeiryddion, yr heddlu a chynrychiolwyr asiantaethau iechyd oedd wedi cael y profiad mwyaf o gynadleddau yn ystod y pandemig COVID-19 a mesurau cyfyngiadau symud cysylltiedig.

Cafwyd o leiaf un ymateb gan 108 o'r 151 o awdurdodau lleol yn Lloegr (72%) ac 16 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru (73%). Er na luniwyd y gwaith ymchwil i fod yn arolwg cenedlaethol, mae'r cyfraddau ymateb yn golygu y gellir bod yn rhesymol hyderus ynglŷn â natur gynrychioliadol y canfyddiadau.

Ymatebodd cyfanswm o 30 o rieni ac aelodau teuluoedd i'r arolwg.⁴ Wrth archwilio'r ymatebion, roedd yn amlwg bod rhai'n ymwneud â gwrandawriadau llys ac nid cynadleddau. Lle'r oedd modd cadarnhau bod rhieni wedi mynychu cynhadledd amddiffyn plant hefyd yn ystod y pandemig COVID-19, cynhwyswyd eu hymatebion.⁵ Gadawodd hyn 24 o ymatebion dilys.

Cyfweliadau

Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg a fyddent yn fodlon siarad â'r ymchwilydd. Cynhaliwyd cynifer o gyfweliadau â phosibl yn ystod y cyfnod, a gwnaed pob ymdrech i gynrychioli'r prif asiantaethau sy'n mynychu cynadleddau. Cyfwelwyd â 52 o weithwyr proffesiynol (gweler Tabl 1 am ddadansoddiad) a 14 o aelodau teuluoedd (8 mam, 1 tad, 5 nain/mam-gu).⁶ Gyda'u caniatâd, recordiwyd a thrawsgrifiwyd y cyfweliadau.

Tabl 1: Nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd yn ôl grŵp proffesiynol

Cadeiryddion cynadleddau	Gweithwyr cymdeithasol	Yr Heddlu	Iechyd/GIG	Ysgolion	Eiriolwyr	Sector gwirfoddol	Eraill	Cyfanswm
12	10	4	9	5	4	6	2	52

Dadansoddwyd y trawsgrifiadau gan ddefnyddio rhwydweithiau thematig i archwilio'r data (Attride-Stirling 2001).

Pan wnaeth y gweithwyr proffesiynol neu'r rhieni sylwadau yn yr arolwg yn hytrach na'r cyfweliadau, nodir hyn.

⁴ Bydd yr adroddiad fel arfer yn defnyddio 'rhieni' i gynrychioli rhieni ac aelodau teuluoedd, heblaw wrth briodoli sylw.

⁵ Cadarnhawyd hyn trwy gysylltu â'r rhieni/yr aelod o'r teulu pan roddwyd manylion cyswllt neu pan oedd presenoldeb yn amlwg o'r ymatebion. Ffoniwyd un fam cyn cynhadledd adolygu a rhoddwyd gwybod iddi am y canlyniad, ond ni chafodd wahoddiad i fynychu. Mae ei hymateb wedi cael ei gynnwys.

⁶ Nododd 242 o weithwyr proffesiynol (49% o'r holl ymatebwyr) a 15 o rieni/aelodau o deuluoedd (63%) eu bod yn fodlon cael eu cyfweld. Cysylltwyd â'r holl rieni i drefnu cyfweliad. Tynnodd un rhiant/aelod o deulu yn ôl wedi hynny.

2. Cynnal cynadleddau amddiffyn plant yn ystod COVID-19

Pan ddaeth cyfyngiadau symud i rym gyntaf ym mis Mawrth 2020, roeddent yn sioc fawr i'r system amddiffyn plant, ac i gymdeithas yn fwy cyffredinol. Amrywiodd yr ymatebion i'r cyfyngiadau rhwng awdurdodau lleol. Roedd rhai awdurdodau wedi rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith yn gynnar ym mis Mawrth, ond nid eraill, ac, mewn modd tebyg, roedd rhai awdurdodau mewn sefyllfa well nag eraill i gynorthwyo staff i weithio gartref yn ddiogel a defnyddio meddalwedd fideo i gynnal cyfarfodydd (Baginsky a Manthorpe 2020a). Penderfynodd llawer o awdurdodau yn gynnar iawn i barhau i gynnal cynadleddau amddiffyn plant, ond gwneud hynny dros y ffôn neu drwy fideo. Newidiodd ardaloedd eraill eu harferion i geisio rheoli'r amgylchedd gweithio newydd.

Trafodwyd pe byddai uwch reolwyr yn cytuno bod lefel risg a fyddai fel arfer yn sbarduno cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol, y byddai 'cynllun diogelwch' yn cael ei gychwyn. Roedd hynny'n ddryslyd iawn i asiantaethau eraill. Nid 'cynllun diogelwch' Arwyddion Diogelwch ydoedd, ond rhywbeth tebycach i gynllun amddiffyn plant brys a oedd yn osgoi cynhadledd (Gweithiwr cymdeithasol).⁷

Felly, lleihawyd y llwyth achosion o ganlyniad i'r pandemig a bu'n rhaid i ni gau llawer o'n hachosion, felly roedd llawer o gau cyflym yn digwydd ar draws achosion, a chaewyd rhai ohonynt cyn pryd, yn fy marn i. Ar hyn o bryd, rwy'n gwneud asesiad newydd o deulu lle'r oedd yr achos wedi cael ei agor ym mis Mawrth a'i gau erbyn mis Ebrill. Mae gennym ni'r un pryderon ac rydyn ni nawr yn mynd i gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol newydd (Gweithiwr cymdeithasol).

Bu'n rhaid cynnal llawer o asesiadau, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy fideo neu hyd yn oed dros y ffôn. Yn ystod y misoedd dilynol, dywedodd rhai o'r bobl a gyfwelwyd fod asesiadau a wnaed ar yr adeg hon wedi cael eu hadolygu'n barhaus a bod sylw'n cael ei roi'n ddiweddarach i benderfyniadau a wnaed mewn cynadleddau a oedd wedi'u seilio ar yr asesiadau hyn.

Ni ofynnem am wybodaeth fanwl am amseriad y cynadleddau y cyfeiriwyd atynt yn yr ymatebion i'r arolwg, ond mae'n ymddangos o'r cyfweiliadau, wrth i amser fynd heibio, fod mwy o ymweliadau cartref wedi cael eu cynnal, ond eu bod yn parhau i gael eu hategu gan gysylltiadau fideo a ffôn.


Sut mae cynadleddau wedi cael eu cynnal?

Yn ôl y gweithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r arolwg, roedd y rhan fwyaf o'r cynadleddau amddiffyn plant yr oeddent wedi'u mynychu – cychwynnol ac adolygu – wedi cael eu cynnal trwy gysylltiad fideo (37%) neu drwy gyfleuster ffôn gynadledda (26%). Fodd bynnag, adroddodd nifer sylweddol o weithwyr proffesiynol (36%) am amrywiadau, megis cymysgedd o gynadleddau ffôn, fideo, a 'hybrid', lle'r oedd rhai cyfranogwyr – fel arfer cadeirydd y

⁷ Ymagwedd wedi'i seilio ar gryfderau at waith achos amddiffyn plant a ddefnyddir yn helaeth ar draws y byd, gan gynnwys gan lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

gynhadledd a'r rhieni – mewn un ystafell, gan gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd, tra bod cyfranogwyr eraill yn ymuno dros y ffôn neu drwy gysylltiad fideo.

Ffigur 2: Sut y cynhaliwyd y gynhadledd? (Ymatebion gan weithwyr proffesiynol)



Roedd mwy na hanner y rhieni a arolygwyd wedi mynychu cynadleddau a gynhaliwyd dros y ffôn, er y dywedodd nifer fod y gweithwyr proffesiynol wedi bod ar fideo (4 o 24). Dim ond oddeutu un o bob pump oedd wedi ymuno â chynhadledd lle'r oedd pawb ar fideo.

Er mai nifer fach o ymatebion a gafwyd gan rieni ac ni allwn gyffredinolï'r canfyddiadau hyn i bob cynhadledd amddiffyn plant, mae hyn yn awgrymu, yn ein sampl ni, y gallai profiad rhieni o ymuno â chynadleddau o bell fod yn wahanol i brofiad gweithwyr proffesiynol. Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol hefyd, yn eu profiad nhw, y byddai rhieni'n ymuno dros y ffôn tra bod pawb arall ar fideo.

Mae'n ddigon anodd dilyn sgwrs, felly mae'n rhaid ei bod yn anoddach fyth ei dilyn ar y ffôn gyda nifer o bobl, yn enwedig pan fyddwch yn bryderus. Os oes gennych gysylltiad fideo, o leiaf y gallwch weld mynegiant wyneb a gallwch adnabod sut mae'r unigolyn yn siarad, gydag ychydig o garedigrwydd efallai. Mae'n ymwneud â mwy na siarad am broblemau a'u beirniadu; oherwydd eu bod nhw'n teimlo eu bod yn cael eu barnu, maen nhw'n teimlo'n euog, maen nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu beio, maen nhw'n teimlo llawer o emosiynau.... Roeddwn i mewn cynhadledd yr wythnos ddiwethaf lle'r oedd gan y fam ffôn sylfaenol heb gamera, felly mae hynny'n anghyfartalwch sy'n anodd iawn ei bontio (Asiantaeth cyffuriau ac alcohol).

‘Cynadleddau nad ydynt wir yn gynadleddau’

Er ei bod yn ymddangos bod mwyafrif y cynadleddau wedi cael eu cynnal gan ddilyn yr un strwythur ag o’r blaen (ond dros y ffôn neu drwy fideo), mynegodd rhai o’r cyfweleion byrderon penodol ynglŷn â ‘chynadleddau nad oeddent wir yn gynadleddau’.

Mewn un awdurdod, mae cadeiryddion yn ffonio pobl yn unigol, gan gynnal sgwrs pump neu ddeng munud â’r unigolyn ym mhob asiantaeth, felly dydych chi ddim yn gwybod beth ddywedodd unrhyw un o’r asiantaethau. Rydych chi’n anfon neges e-bost yn rhoi eich safbwyntiau a dyna ddiwedd y cyfarfod. Rhaid i mi ddweud nad wyf yn gyfforddus yn gweithredu yn y modd hwnnw (yr Heddlu).

Dyma sut mae’r gynhadledd yn cael ei chynnal: bydd cadeirydd y gynhadledd a’r sawl sy’n cymryd cofnodion wedi siarad â’r gweithiwr cymdeithasol, yr ysgol, gweithwyr ieuchyd – oll trwy alwadau ffôn ar wahân – i gasglu eu hargymhellion. Yna byddan nhw’n mynd at y rhieni ar y diwedd. Rwy’n ymwybodol o adegau lle maen nhw wedi siarad â rhieni ar y dechrau yn ogystal ag ar y diwedd, ond, ar ei gwaethaf, galwad ffôn ar y diwedd ydoedd yn unig, erbyn pryd y mae’n teimlo fel bod penderfyniad wedi cael ei wneud (Eiriolwr).

Lle y defnyddiwyd y model hwn, mae’n bosibl bod rhieni wedi cael cyfle i fynegi eu barn i gadeirydd y gynhadledd, neu beidio, ac ni fyddent wedi gallu herio’r hyn a ddywedodd weithwyr proffesiynol na pham yr oeddent yn argymhell cynllun amddiffyn plant neu barhau â chynllun.

Yn y gynhadledd gyntaf pan gawson nhw eu rhoi ar y rhestr, roedd yr heddlu yno a’r gwasanaeth prawf a’r ysgol, ond doeddwn i ddim yno. Ffoniodd y cadeirydd fi ar wahân, felly doedd gen i ddim syniad beth oedd yn cael ei ddweud a beth oedd barn pobl na beth a ddywedwyd yng nghyfarfod y gynhadledd, oherwydd siaradais i â’r cadeirydd yn unig a dyna fe.

Cyfwelydd: Felly, ni chawsoch chi eich deialu i mewn i’r gynhadledd ei hun?

Na. Fe ddywedodd hi wrtha i na allen nhw wneud hynny, a’r un peth yr eildro. Yn yr ail un pan ddaeth fy mhlant oddi ar y rhestr, dim ond â chadeirydd y gynhadledd y siaradais i unwaith eto, siaradais i fyth... doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod pwy oedd yn yr ail gyfarfod cynhadledd a beth a ddywedwyd na dim (Mam).

Awgrymodd y cyfweiliadau fod rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio hyn fel mesur dros dro yn yr ymateb uniongyrchol i’r cyfyngiadau symud cyn cyflwyno cynadleddau ffôn neu fideo, ond parhaodd rhai â’r arfer. Yn ôl gweithiwr proffesiynol mewn un awdurdod a oedd wedi parhau i ddefnyddio’r model hwn y tu hwnt i’r cyfnod cychwynnol, roedd yr adborth gan rieni’n gadarnhaol, ac roedd rhieni’n dweud eu bod yn credu bod cadeiryddion cynadleddau wedi clywed eu safbwyntiau heb fod angen iddynt wynebu ystafell go iawn neu rithwir o weithwyr proffesiynol. Rhoddodd yr awdurdod hwn y gorau i ddefnyddio’r ymagwedd hon dim ond pan fynegodd un o arolygwyr Ofsted, a oedd wedi’i leoli yn yr awdurdod yn rhan o

becyn cymorth COVID-19, y farn nad oedd hyn yn bodloni canllawiau'r llywodraeth ar sut y dylai cynadleddau amddiffyn plant gael eu cynnal.⁸

Cynadleddau wyneb yn wyneb

Dangosodd yr arolwg cyn lleied o gynadleddau cwbl wyneb yn wyneb a gynhaliwyd (gweler Ffigur 2). Fel arfer, defnyddiwyd y rhain dim ond pan oedd gan rieni anawsterau penodol. Roedd un cadeirydd wedi cynnal rhai cynadleddau mewn gerddi.

Fe gynhaliais i ambell un mewn gerddi pobl yn ystod yr haf, yn enwedig pan oedd gan rieni anawsterau dysgu, a oedd yn golygu y byddai'n eithaf anodd iddynt ymuno'n rhithwir. Felly, roedd gennym ni fam a thad, eiriolwr o MIND, nain/mam-gu ar ochr y fam, gweithiwr cymdeithasol, rhywun i gymryd cofnodion a fi. Roedd ganddyn nhw ardd eithaf mawr ac roedden nhw'n gyfforddus â hynny. Fe wnaethon ni ran un ac yna dychwelyd i'r swyddfa a chynnal rhan dau yn rhithwir. Oherwydd bod gan y fam nam difrifol iawn ar y lleferydd ac anawsterau dysgu, byddai'n anodd iawn gwneud yr holl beth yn rhithwir (Cadeirydd cynhadledd).

Ychydig o awdurdodau oedd o'r farn bod ganddynt ddigon o le i ailgyflwyno cynadleddau wyneb yn wyneb yn llawn tra bod angen cadw pellter cymdeithasol, hyd yn oed petai'r cyfranogwyr wedi bod yn fodlon mynychu. Dywedasant fod llawer o'r ystafelloedd a ddefnyddiwyd gynt ar gyfer cynadleddau yn rhy fach i gadw pellter corfforol ynddynt.

Rydym yn cynnig cynadleddau adolygu wyneb yn wyneb lle mae chwech neu lai o bobl yn y gynhadledd, ond ni ofynnwyd am hyn eto. Bydd hyn yn ddewis cadarnhaol wrth i ni symud yn ôl i gynyddu cynadleddau wyneb yn wyneb wrth i'r cyfyngiadau leihau (Rheolwr cynadleddau amddiffyn plant – arolwg).

Cynadleddau hybrid

Roedd llawer o awdurdodau lleol yn rhoi mwy o sylw i'r model hybrid, lle'r oeddent yn gallu cynorthwyo rhieni i fynychu'n bersonol. Roedd un awdurdod yn defnyddio'r ffurf hybrid ar gyfer pob cynhadledd gychwynnol, lle'r oedd rhieni'n cytuno i fynd i swyddfa. Mae'r awdurdod hwn wedi penderfynu gwneud cynadleddau hybrid yn arfer sefydledig, hyd yn oed ar ôl COVID-19. Roedd wedi gosod yr hyn a alwodd yn 'dechnoleg fideo o'r radd flaenaf' yn y pedair ystafell a ddefnyddiwyd gynt ar gyfer cynadleddau.

Ydy – mae wedi peri i ni ddechrau o'r newydd a dylunio lleoliad croesawgar a diogel sydd â'r holl ofynion glanhau a diogelwch ar waith. Rydym wedi prynu technoleg newydd helaeth – caledwedd a meddalwedd – i'n galluogi i fodloni anghenion teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau i'w defnyddio gan ein byrddau fframwaith cryfhau teuluoedd fel y gall yr holl gyfranogwyr eu gweld drwy gydol y gynhadledd, gan gynnwys safbwyntiau plant a chynlluniau amddiffyn plant. Mae gan

⁸ Mae canllawiau COVID-19 y llywodraeth yn datgan '...dylai cynadleddau amddiffyn plant amlasiantaethol barhau i gael eu cynnal, felly, gan ddefnyddio fideogynadledda neu ddatrysiadau galwad gynadledda lle y bo'n briodol'. Gweler: www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-guidance-for-childrens-social-care-services/coronavirus-covid-19-guidance-for-local-authorities-on-childrens-social-care (tud. 12).

y cynadleddau hybrid gamerâu sy'n dilyn y siaradwr, felly gall cyfranogwyr weld a chlywed yr hyn sy'n digwydd ar-lein. Gellir gweld wynebau'r cyfranogwyr ar-lein ar y sgrin, fel bod rhieni'n gallu gweld a chlywed pwy sy'n siarad. (Cadeirydd – arolwg).

Roedd hefyd yn bwriadu trawsnewid pedair ystafell mewn adeilad arall i wella mynediad ar gyfer rhieni sy'n byw mewn rhannau eraill o'r awdurdod. Roedd llawer o rai eraill yn eu defnyddio ar adegau pan amlygwyd angen penodol, megis ar gyfer cymorth Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu gyfieithu. Er bod gweithwyr proffesiynol wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn ar gynadleddau hybrid o ran ymgysylltu â rhieni a'u cynorthwyo, gwnaed sylwadau ynglŷn ag anawsterau technegol a gafwyd lle nad oedd technoleg briodol ar waith.

Fe wnes i un ddoe lle'r oedd y cadeirydd ac, rwy'n credu, dau o bobl eraill yn yr un ystafell, ac roedd rhaid iddynt symud o gwmpas yr ystafell i fynd yn agos i'r gliniadur. Felly, rwy'n credu y bydd yn gweithio gydag offer gwell (yr Heddlu).

Fe gawson ni un yr wythnos ddiwethaf ac roedden ni'n ceisio ei wneud ar liniadur y cadeirydd, felly roedd yn wynebu i ffwrdd oddi wrthi, ond yna ni allai hi weld pan oedden ni'n ceisio codi llaw i ofyn cwestiynau, felly... fe fyddai hi wedi gallu gweld ar y sgrin fawr, ond mae'n rhaid i chi addasu, on'd oes, i'r ffordd y mae pethau ar hyn o bryd (Ymwelydd ieched).

Canfu rhai awdurdodau a oedd yn cyflwyno cynadleddau hybrid nad oedd rhai rhieni eisiau bod mewn perygl o ddal y feirws COVID-19 trwy deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu fod mewn adeilad swyddfa.

3. Manteision ac anfanteision y newidiadau i blant, rhieni a theuluoedd, a gweithwyr proffesiynol

Archwiliodd y gwaith ymchwil effaith cynnal cynadleddau yn ystod y cyfnod hwn ar blant, rhieni, a gweithwyr proffesiynol. Mae'n bwysig nodi nad oedd y gwaith ymchwil hwn yn cynnwys adborth gan blant a phobl ifanc eu hunain. Felly, nid oes modd gwybod i ba raddau y byddai eu safbwyntiau ar gymryd rhan yn cyfateb i asesiad y gweithwyr proffesiynol.

Plant

Mae *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant* (yr Adran Addysg 2018) yn datgan y dylai gweithwyr cymdeithasol sicrhau bod plant yn deall diben y gynhadledd a helpu i baratoi'r plentyn os yw'n mynychu. Pwysleisiodd adolygiad yr Athro Eileen Munro o'r system amddiffyn plant bwysigrwydd sicrhau bod profiad y plentyn yn ganolog i'r prosesau perthnasol, ond canfu nad oedd hyn yn digwydd i unrhyw raddau helaeth.

Mae plant a phobl ifanc yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am eu bywydau a'r effaith y mae unrhyw broblemau ei chael arnynt yn niwylliant a gwerthoedd penodol eu teulu. Mae'n syfrdanol, felly, bod y dystiolaeth yn dangos nad yw plant yn cael eu cynnwys yn ddigonol mewn gwaith amddiffyn plant (Munro 2011, tud. 25).

O'r blaen, pan oedd pethau'n 'normal', roedd yn anarferol i blant fynychu cynadleddau. Er enghraifft, yn eu hastudiaeth o 23 o blant a oedd yn destun cynadleddau amddiffyn plant, canfu Muench et al. (2017) nad oedd y rhan fwyaf o blant yn deall diben y gynhadledd, ac ychydig oedd wedi mynychu un.

Dywedodd 67% o'r gweithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r arolwg fod trefniadau ar waith i gynorthwyo plant a phobl ifanc i ymuno â chynadleddau. Roedd cadeiryddion cynadleddau a gweithwyr cymdeithasol yn fwy ymwybodol o'r rhain (93% a 78%, yn ôl eu trefn), er bod gan athrawon a'r heddlu ymwybyddiaeth resymol dda hefyd (66% a 65%), sy'n awgrymu bod trefniadau'n weladwy ac yn cael eu defnyddio.

Adroddodd rhai gweithwyr proffesiynol am well ymgysylltiad â phlant, yn enwedig plant hŷn, mewn cynadleddau o bell. Roedd rhai plant wedi cael eu hannog i ddefnyddio'r gliniaduron a ddarparwyd ar gyfer gwaith ysgol o gartref i ymuno â'r gynhadledd, ac roedd disgyblion oed ysgol uwchradd wedi cael cymorth gan eu hathrawon i ymuno â'r gynhadledd ar adeg benodol, fel nad oeddent yn cael eu hamlygu i drafodaethau a allai fod yn amhriodol neu beri gofid iddynt.

Roedd teulu o dri ac roedd yr hynaf eisiau mynychu'r gynhadledd. Roedd ganddi berthynas dda iawn â'i hathro/athrawes cymorth bugeiliol, a'i helpodd i fynychu rhan o'r gynhadledd. Yn amlwg, mae llawer o wybodaeth nad yw'n briodol ei rhannu â plentyn, ond roedd cadeirydd y gynhadledd yn gallu ei strwythuro fel bod y wybodaeth yn ymwneud â'r plentyn penodol hwn yn derbyn sylw yn gyntaf. Rwy'n credu y treulion ni tua 20 neu 30 munud ar ei rhan hi, ac yna fe ddychwelodd hi i'w dosbarth. Felly, roedd hi'n hapus gan ei bod yn teimlo ei bod wedi cymryd rhan, ond petai hi wedi mynychu'n bersonol, bydden ni wedi gorfod ei hanfon allan i eistedd mewn coridor, felly roedd hynny wedi gweithio'n dda iawn (Gweithiwr cymdeithasol).

Pan fyddan nhw'n rhithwir, maen nhw'n ymddangos yn fwy parod i fod yno. Roedd un ferch ifanc a oedd yn huawdl iawn, ac fe ddywedodd gymaint yr oedd hi'n gwerthfawrogi'r cyfle i gyfrannu o ystafell fach yn ei hysgol. Maen nhw'n gyfarwydd â defnyddio cysylltiadau fideo ac mae'n bosibl bod hynny'n llai bygythiol nag ystafell llawn oedolion (yr Heddlu).

Roedd rhai o'r cyfweleion yn credu y bu mwy o gyfranogiad mewn cynadleddau pan oedd plant a phobl ifanc wedi bod allan o'r ysgol ac wedi gallu mynychu'r gynhadledd fideo. Dywedodd un cadeirydd cynhadledd mai'n anaml iawn yr oedd plentyn neu berson ifanc wedi bod yn un o'i chynadleddau cyn cyfnod COVID-19, ond bod sawl un wedi cymryd rhan yn ystod y misoedd diwethaf. Disgrifiodd ba mor bwerus y bu hyn.

Weithiau gallaf ymgysylltu â'r plentyn, siarad ag ef o flaen llaw, ac efallai na fydd eisiau dod i mewn i'r cyfarfod, ac fe fydda i'n ei ystyried yn rhan o'r cyfarfod os ydw i wedi siarad ag ef. Ond weithiau, bydd yn dod i mewn ac fe ddyweda i wrtho o flaen llaw, naill ai 'A wna i rannu beth ddywedaist di wrtha i ddoe, yr ydw i wedi'i deipio, neu wyt ti eisiau ei rannu, os gofynna i'r cwestiynau iawn?' Mae'n bwerus iawn, y naill ffordd neu'r llall. Os byddwch chi'n darllen yn uchel, 'Dywedodd John, rwy'n mynd yn ofnus iawn yn y nos pan fydda i'n clywed Dadi'n gweiddi ar Mami ac mae'n rhaid i mi fynd i ystafell fy chwaer yn aml a rhoi fy mraich amdani', mae'n cael effaith (Cadeirydd cynhadledd).

Roedd enghreifftiau o weithwyr cymdeithasol yn addasu i'r amgylchiadau gwahanol i gynorthwyo plant i gymryd rhan. Er enghraifft, soniodd un gweithiwr cymdeithasol am oresgyn anawsterau wrth ddod o hyd i fan priodol i blant ymuno â'r gynhadledd, gan fod swyddfeydd ar gau a phobl yn gweithio gartref.

Y gwir amdani yw nad oes gennym unrhyw eglurder na chyfeiriad ynglŷn â sut y dylem ni wneud hyn. Roedden nhw mewn clwb chwaraeon, roedd hyn yn ystod gwyliau'r haf, ac fe ffoniais i'r gŵr oedd yn cynnal y clwb chwaraeon, a oedd yn ddymunol iawn... Dywedodd, rydyn ni i gyd allan ar y maes chwarae yn chwarae pêl-droed mewn ysgol yn y dref. Fe allwch chi fynd i eistedd mewn ystafell ddosbarth i wneud yr alwad ffôn. Felly, dyna beth wnaethon ni, ac mae'r plant hynny'n naw a deng mlwydd oed ac yn gallu deall cadw pellter cymdeithasol i'r dim, felly dyna beth wnaethon ni (Gweithiwr cymdeithasol).

Roedd cyfranogiad plant wedi cynyddu mewn un awdurdod yn ystod y cyfnod hwn, a ysgogwyd yn rhannol gan y ffaith bod gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio eu ffonau symudol i wneud recordiad fideo o'u sgysiau gyda phlant wrth ddechrau cynnal ymweliadau cartref unwaith eto. Gyda chaniatâd y rhieni a'r plant, storiwyd y rhain ar safle diogel ac fe'u chwaraewyd mewn cynadleddau.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na ddywedodd yr un rhiant nac aelod o deulu fod eu plentyn wedi cymryd rhan mewn cynhadledd, a dim ond un rhan o bump a ddywedodd fod safbwyntiau'r plant hyn wedi cael eu hysgrifennu a'u rhannu gyda'r rhai a fynychodd y gynhadledd.

Roedd rhai o'r gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd yn amau i ba raddau yr oedd safbwyntiau plant yn cael eu cynrychioli, a nodwyd hyn yn yr ymatebion i'r arolwg hefyd.

Nid ydym yn gallu clywed llais y plant sy'n mynychu cynadleddau amddiffyn plant weithiau. Os ydynt wedi ymuno trwy Microsoft Teams, rydym yn ymwybodol iawn bod eu rhieni'n bresennol, ac efallai nad ydynt yn gallu/yn fodlon siarad yn agored (Gweithiwr cymdeithasol – arolwg).

Oherwydd bod gweithwyr cymdeithasol wedi cael llai o gysylltiad â phlant a phobl ifanc, roedd pryderon y byddai cyfranogiad wedi dirywio mwy fyth:

Oherwydd nad yw gweithwyr cymdeithasol wedi cael yr un lefel o gysylltiad â phlant, rwy'n ofni nad ydynt wedi rhoi'r amser i archwilio sut maen nhw'n teimlo a sut mae hyn wedi newid dros amser. A dweud y gwir, mae bob amser wedi dibynnu ar ba mor dda y mae'r gweithiwr cymdeithasol unigol wedi gwneud pethau, ond, at ei gilydd, rwy'n credu ei bod wedi llithro oddi ar agenda ymarfer rhai (Cadeirydd cynhadledd).

Rhieni a theluoedd

Yn yr arolwg, amlygodd 80% o weithwyr proffesiynol fanteision i rieni ac aelodau teluoedd o ran y ffordd yr oedd cynadleddau'n cael eu cynnal – er bod ychydig yn fwy (85%) wedi amlygu anfanteision hefyd.

Er bod tri chwarter y cadeiryddion cynadleddau'n hyderus y bu'n bosibl cynnal yr un lefel o ymgysylltiad â rhieni mewn cynadleddau amddiffyn plant â chyn COVID-19, roedd pryderon hefyd bod hynny wedi bod ar draul rhai o hawliau eithaf sylfaenol rhieni.

Er bod llawer o'r gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd yn credu bod cyfranogiad rhieni mewn cynadleddau wedi cynyddu – er bod hyn wedi'i seilio ar amcangyfrifon ac argraffiadau – mae'n werth nodi y byddai'r holl rieni ac aelodau teluoedd a gyfwelwyd wedi dewis cynhadledd wyneb yn wyneb petai wedi bod ar gael. Yn yr arolwg, roedd tri chwarter y rhieni'n credu bod y ffordd y cynhaliwyd y gynhadledd wedi cael effaith niweidiol ar eu gallu i gyfrannu. Er bod ychydig dros hanner yn credu yr oeddent wedi gallu mynegi eu barn a gwneud sylwadau ar yr hyn oedd yn cael ei ddweud, er bod hynny'n anodd ei wneud, roedd y gweddill yn teimlo y gwrthodwyd y cyfle hwnnw iddynt neu nad oeddent yn gallu gwneud sylwadau.

Mae'n bwysig archwilio canfyddiadau a sefyllfa wirioneddol rhieni a gweithwyr proffesiynol wrth iddynt fyfyrto ar brofiadau rhieni o gynadleddau amddiffyn plant yn ystod y cyfnod hwn.

Llai bygythiol

Mantais bosibl allweddol a amlygwyd gan weithwyr cymdeithasol oedd y teimlad bod y cynadleddau a gynhaliwyd ar y ffôn neu drwy fideo yn llai bygythiol ac yn achosi llai o bryder i rieni. Roedd llawer o'r gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd o'r farn bod rhieni'n ffafrio'r cynadleddau hyn yn hytrach na rhai wyneb yn wyneb, yn bennaf oherwydd eu bod yn credu eu bod yn llai bygythiol na mynd i mewn i ystafell sy'n llawn gweithwyr proffesiynol.⁹

Rwy'n gwybod o fod yn weithiwr cymdeithasol rheng flaen pan oeddwn mewn awdurdod lleol, pa mor fygythiol y gall fod i riant gerdded i mewn i ystafell sy'n llawn

⁹ Roedd rhai awdurdodau wedi ceisio barn rhieni a oedd wedi mynychu cynadleddau yn ystod y pandemig, gan adrodd, at ei gilydd, fod yn well gan y rhan fwyaf gynhadledd fideo neu ffôn nag un wyneb yn wyneb.

gweithwyr proffesiynol y mae'n credu eu bod nhw'n mynd i'w farnu. I mi, dyna'r peth mwyaf cadarnhaol o ran y partion, sef eu bod nhw'n eistedd yn eu cartref eu hunain, yn gyfforddus, yn mewngofnodi ar sgrin, ac rwy'n siŵr bod hynny'n cynyddu eu gallu i gymryd rhan yn llawn (Cadeirydd cynhadledd).

Felly, bydd gennych chi rai teuluoedd sy'n bendant eu bod nhw am fod yng nghanol y cyfarfod a gweld popeth sy'n digwydd a gallu edrych ym myw llygad ar yr holl weithwyr proffesiynol ar y sgrin, a bydd gennych chi rai, yn naturiol ac yn ddealladwy, oherwydd y ffordd mae'r broses yn teimlo weithiau, y byddai'n well ganddynt ei wneud yn rhithwir a hyd yn oed trwy alwad ffôn yn hytrach na galwad fideo oherwydd bod hynny'n llai bygythiol iddynt (Cadeirydd cynhadledd).

Roedd sawl gweithiwr proffesiynol hefyd yn credu bod rhai rhieni wedi'u cynrychioli eu hunain yn well dros y ffôn neu drwy fideo nag yr oeddent wedi disgwyl.

Rydw i wedi synnu braidd, oherwydd yn y byd go iawn, mae pobl fel arfer yn fwy tebygol o fod yn ymosodol ar y ffôn nag ydynt wyneb yn wyneb. Ac nid dyna fy mhrofiad i. Rydw i wedi gweld pobl yn anadlu'n ddwfn, cerdded allan o'r ystafell, ac yna dychwelyd. Dydw i ddim wedi gweld rhai o'r mathau o ymddygiad roedden ni wastad yn eu gweld pan oedden ni i gyd gyda'n gilydd, a dydw i ddim yn gwybod pam (yr Heddlu).

Rydw i wedi synnu at ba mor bendant mae rhai rhieni wedi bod. Ni fuaswn wedi disgwyl i un fam benodol herio'r hyn oedd yn cael ei ddweud. Heb fynd yn emosiynol, fe esboniodd beth oedd hi'n credu oedd wedi mynd o'i le ac, efallai 'mod i'n anghywir, ond dydw i ddim yn credu y buasai hi wedi gwneud hynny mewn cyfarfod mawr. Rywsut, roedd hi'n ymddangos yn fwy hyderus dros y ffôn (Ymwelydd iechyd).

Cefais gyfarfod yn ddiweddar â menyw oedd wedi paratoi'n drylwyr. Roedd hi wedi ysgrifennu popeth yr oedd hi eisiau ei chyfleu yn y cyfarfod hwnnw, ac roedd ei mam gyda hi i'w chefnogi yn y cefndir, felly roedd hynny'n fantais, yn fy marn i, bod ganddi rywun yn ei bywyd a allai fod gyda hi'n gorfforol, a'i bod hi yn ei chartref ei hun. Felly, fe allai hynny fod yn beth da pan fyddan nhw'n teimlo'n fwy diogel ac yn fwy parod os ydyn nhw'n eistedd yn eu hystafelloedd byw gyda darn o bapur sy'n cynnwys eu nodiadau ac yn cyflwyno eu hachos (Eiriolwr).

Amlygodd gweithwyr proffesiynol y manteision posibl mewn sefyllfaoedd lle y byddai'n anodd cael rhieni yn yr un ystafell â'i gilydd fel arfer.

Cyfradd presenoldeb uwch gan rieni. Roedd cyfarfodydd yn gyflymach pan oedd rhieni sydd wedi ymddieithrio'n mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb, gan eu bod yn cael eu cynnal mewn dwy ran fel arfer. Mae cyfarfodydd rhithwir yn caniatáu i'r ddau riant fynychu gyda'i gilydd, gan nad ydynt yn yr un ystafell (Ymwelydd iechyd – arolwg).

Haws mynychu

Yn yr arolwg, roedd gweithwyr proffesiynol yn credu'n gyffredinol ei bod yn haws i rieni fynychu o'u cartrefi eu hunain, heb fod angen teithio neu drefnu gofal plant.

Cyhyd â bod y dechnoleg ar gael i'r rhieni/teuluoedd, bu'n haws iddynt ymuno â'r cyfarfod, heb bryderon gofal plant, cost teithio ac amser ac ati. Mewn sawl cyfarfod, mae'r gweithiwr cymdeithasol wedi mynd i'r cyfeiriad cartref ac eistedd gyda'r rhieni gyda'i gyfrifiadur i'w galluogi i gymryd rhan. Mae hyn wedi gweithio'n dda (yr Heddlu – arolwg).

Roedden nhw'n gallu mewngofnodi o gartref, felly doedd dim angen iddynt deithio i'r swyddfa, ac roedden nhw'n agosach i gartref i gasglu'r plant o'r ysgol (Gweithiwr cymdeithasol – arolwg).

Nid oedd pob gweithiwr proffesiynol yn cytuno bod y cynadleddau fideo neu ffôn a fynychwyd ganddynt wedi bod yn brofiad gwell i rieni. Yn arbennig, wrth fyfyrion ar eu profiadau eu hunain, a'r adborth yr oeddent yn ei gael, roedd eiriolwyr yn fwy amheus o hyn nag eraill, yn ôl pob tebyg.

Cyfyngiadau i ymuno â chynadleddau dros y ffôn

Roedd dros hanner y rhieni a arolygwyd wedi mynychu cynadleddau dros y ffôn. Roedd ambell enghraifft o gyfleusterau galwad gynhadledd cyffredinol awdurdod lleol a oedd yn gweithio i weithwyr proffesiynol at ei gilydd ond nad oeddent bob amser yn gweithio i rieni.

Byddai gweithwyr proffesiynol yn ffonio i mewn. Defnyddiwyd yr un rhif ar gyfer unrhyw gynhadledd yr oeddwn yn ei chadeirio, a oedd yn gyfleus iddyn nhw. Ond roedd problem oherwydd doedd ganddyn nhw ddim hawl i'w roi i rieni... dywedodd ein hadran diogelu data nad oedd hawl gennym i wneud hynny... felly ni allai rhieni gael mynediad yr un ffordd â gweithwyr proffesiynol, felly byddai'n rhaid i mi ffonio rhywun a chysylltu'r alwad â'r gynhadledd â'r rhieni (Cadeirydd cynhadledd).

Does ganddyn nhw ddim system delegynadledda go iawn. Mae ganddyn nhw rif ffôn a chod deialu, y maen nhw'n eu rhannu gyda rhieni, felly os byddan nhw'n cymysgu'r dyddiad a'r amserau, mae rhieni eraill yn deialu i mewn i'ch cynhadledd... Codais hyn ar ôl yr alwad gan ddweud ei fod yn achos clir o dorri'r GDPR. Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol, 'nac ydyw', ac fe anwybyddodd fi eto (Tad).

Dywedodd rhai rhieni y bu'n anodd iddynt ddilyn y trafodaethau a gwybod sut a phryd i gyfrannu, a dywedodd llawer nad oeddent yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu barn a/neu nad oeddent yn teimlo y gwrandawyd arnynt:

Gofynnais ambell gwestiwn yn ystod y gynhadledd (ond) heb gael ateb teimlais nad oeddwn i'n bwysig a doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud (Tad – arolwg).

Nid oedd modd ffurfio cysylltiad ystyrion oherwydd cafodd ei wneud trwy WhatsApp – roedd yn amhersonol iawn ac yn fyr, felly ni allwn gyfleu popeth y buaswn wedi hoffi ei ddweud (Nain/Taid / Mam-gu/Tad-cu – arolwg).

Roedd y gynhadledd a gynhaliwyd trwy alwad ffôn yn ofnadwy. Rydw i wir yn teimlo y byddai canlyniad y gynhadledd wedi bod yn wahanol i ni petaen ni i gyd wedi bod mewn ystafell gyda'n gilydd lle y buasem ni wedi gallu siarad yn iawn, yn hytrach na gorfod aros ein tro i siarad. Treuliais y rhan fwyaf o'r gynhadledd yn crïo, ac ni roddodd y cadeirydd unrhyw ystyriaeth o gwbl i'm teimladau i na'm teulu. Pan wnaed

y penderfyniad ar y diwedd, symudodd y cadeirydd ymlaen yn gyflym i drefnu'r dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd nesaf ac ni siaradodd â ni eto. Ni oedd y rhai a gafodd siarad y lleiaf drwy gydol yr holl beth, ac ni roddwyd cyfle i mi amddiffyn fy hun yn erbyn y pethau oedd yn cael eu dweud amdanaf. Roedd yn brofiad ofnadwy ac rydw i'n ofni'r un nesaf yn barod (Mam – arolwg).

Yn y rhan fwyaf o'r enghreifftiau hyn, roedd pawb wedi bod ar y ffôn, ond dywedodd rhai y bu'r gweithwyr proffesiynol ar fideo tra'r oedden nhw ar y ffôn. Ychydig iawn oedd wedi ymuno â chynhadledd lle'r oedd pawb ar fideo. Ym marn gweithwyr proffesiynol, roedd sefyllfa lle'r unig rai heb gysylltiad fideo oedd y rhieni yn eu rhoi dan anfantais sylweddol.

Mae'n ddigon anodd dilyn sgwrs, felly mae'n rhaid ei bod yn anoddach fyth ei dilyn ar y ffôn gyda nifer o bobl, yn enwedig pan fyddwch yn bryderus. Os oes gennych gysylltiad fideo, o leiaf y gallwch weld mynegiant wyneb a gallwch adnabod sut mae'r unigolyn yn siarad, gydag ychydig o garedigrwydd efallai. Mae'n ymwneud â mwya na siarad am broblemau a'u beirniadu; oherwydd eu bod nhw'n teimlo eu bod yn cael eu barnu, maen nhw'n teimlo'n euog, maen nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu beio, maen nhw'n teimlo llawer o emosiynau.... Roeddwn i mewn cynhadledd yr wythnos ddiwethaf lle'r oedd gan y fam ffôn sylfaenol heb gamera, felly mae hynny'n anghyfartalwch sy'n anodd iawn ei bontio (Asiantaeth cyffuriau ac alcohol).

Mae'n ymddangos mai Microsoft Teams yw'r feddalwedd fwyaf poblogaidd a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i gefnogi fideogynadleddau, ond cyfeiriwyd sawl gwaith at ba mor anodd y bu i rieni lawrlwytho ac ymuno â'r cynadleddau hyn. Arweiniodd hyn at gadeiryddion cynadleddau neu weithwyr cymdeithasol yn eu ffonio a'u rhoi ar uchelseinydd. Yna, gallai'r rhiant glywed beth oedd yn cael ei ddweud – er bod ansawdd sain yn achosi problem yn aml – ond ni allai weld unrhyw beth, yn debyg i ymuno â galwad cynhadledd ffôn, er ei fod yn gwybod bod pawb arall yn gallu gweld ei gilydd.

Roedd yr holl weithwyr proffesiynol wyneb yn wyneb gan ddefnyddio Teams, ond roedd y rhieni wedi cysylltu trwy'r ffôn. Rwy'n credu bod y gweithiwr cymdeithasol wedi'u ffonio ar ei ffôn symudol ac yna wedi'u rhoi ar uchelseinydd y ffôn, a oedd yn dod trwy seinydd ei chyfrifiadur, gan nad oedd ganddynt gysylltiad â'r rhyngwrdd gartref. Roedd ganddyn nhw signal ffôn gwael iawn, a oedd yn golygu ei bod yn eithaf anodd eu deall. Oherwydd hyn, roedd y gynhadledd hon yn hir iawn ac yn eithaf trofaus, ac roedd ychydig o gamgyfleu a ddigwyddodd ar wahanol adegau (Bydwraig).

Cyfeiriodd rhieni a fuont yn y sefyllfaoedd hyn at deimlo'n ddi-rym ac yn rhwystredig, gan gredu o ganlyniad na roddwyd pwys dyladwy i'w safbwyntiau a'u profiadau.

Nid yw'n helpu o gwbl, dydy'r bobl sy'n penderfynu ddim yn gallu eich gweld chi, dydyn nhw ddim yn gallu gweld ein hemosiynau. Dros y ffôn, dydych chi ddim yn gallu dweud unrhyw beth am y (gweithwyr proffesiynol) rydych chi'n gweithio gyda nhw... Gallai'r penderfyniad fod yn anghywir a does dim modd i chi amddiffyn eich hun (Mam).

Roedden ni ar y ffôn, ac rwy'n credu'n bendant petaen ni wedi bod yn yr ystafell, y byddai'r canlyniad wedi bod yn wahanol iawn, oherwydd roedd bydwraig ddiogelu o'r

ysbyty, nad oedd erioed wedi cyfarfod â fi, ac fe restrodd hi gronoleg ddamniol o bethau, na ddylen nhw fyth wedi'u hystyried, fel fy mod i wedi gwrthod sganiau twf. Do, fe wnes i hynny, oherwydd y buaswn i wedi gorfod mynd iddyn nhw ar fy mhen fy hun, gyda COVID yn amlwg, ac roeddwn i'n gwybod bod gen i bob hawl i'w gwrthod, ac eto rhestrwyd hynny fel rhywbeth negyddol yn fy erbyn. Pan ddechreuodd y gweithiwr cymdeithasol... a cheisiais i ddweud rhywbeth ar ei draws, cefais fy atal yn syth gan y cadeirydd a ddywedodd wrthyf fod angen i mi aros fy nhro ac y byddai'r holl weithwyr proffesiynol yn cael siarad gyntaf, ond o ran y fydwraig, roedd hi wedi rhestru ei holl bethau mor gyflym, roeddwn i'n ceisio ysgrifennu cymaint ag y gallwn i'm hamddiffyn fy hun, ac ni allwn gadw i fyny... Ar un adeg, fe ddywedodd y cadeirydd, 'O, rwy'n ysgrifennu pethau ar fwrdd'. Beth yw'r pwynt? Dydy'r un ohonon ni'n gallu ei weld (Mam).

Dydych chi ddim yn gallu ymgyswngu â phrofiad cyfan galwad gynhadledd os dyna yw'ch tro cyntaf yn mynychu un, mae'n llethol, mae'r difrifoldeb yn fygythiol, rydych chi'n rhannu eich profiadau â lleisiau... Gan fod amser yn brin i'r gweithwyr proffesiynol, rydych chi'n cael cyfle i ddweud eich enw, ond yna roeddwn i'n ofni dweud unrhyw beth arall (Nain/Taid / Mam-gu/Tad-cu).

Cyfyngiadau i ymuno â chynadleddau trwy fideo

Amlygodd yr ymatebion i'r arolwg a'r cyfweiliadau faterion yn gysylltiedig â mynediad anghyfartal at dechnoleg a'r rhyngwyd, sy'n gallu atal rhieni rhag cymryd rhan yn effeithiol neu ddilyn beth sy'n digwydd. Roedd adegau pan nad oedd rhieni wedi mynychu gan nad oedd ganddynt fynediad at y dechnoleg na data ar eu ffonau symudol. Er bod enghreifftiau o awdurdodau lleol yn darparu iPads, gliniaduron, ffonau symudol, a data i helpu rhieni i gymryd rhan, roedd yn ymddangos eu bod yn y lleiafrif.

Pan oedd rhieni wedi ymuno â chynhadledd trwy fideo, roeddent yn tueddu i ymuno ar ffôn clyfar yn hytrach na gliniadur. Wrth ddefnyddio Microsoft Teams, roedd hyn yn golygu y gallai rhieni weld y sawl a oedd yn siarad yn unig.

Byddai'n rhaid i'r rhieni siarad drostynt eu hunain, yn ôl pob tebyg, ond os ydynt ar ffôn, maen nhw'n amlwg yn edrych ar sgrin eithaf bach, ac ni allant weld pawb o reidrwydd; rwy'n credu ar ffôn, rydych chi'n tueddu i weld y sawl sy'n siarad yn unig, ni allant weld pawb arall sydd yno, o reidrwydd, heblaw pan fyddan nhw'n siarad... tra bod gweithwyr proffesiynol yn tueddu i ddefnyddio gliniaduron neu iPads (Nyrs ysgol).

Yn yr un modd â mynediad trwy ffôn, roedd llawer o weithwyr proffesiynol yn cydnabod bod golwg rannol yn golygu bod pawb dan anfantais gan nad oeddent yn gallu gweld mynegiant yr wyneb a darllen iaith y corff – yn enwedig rhieni.

... i riant sy'n anghyfarwydd â'r system, mae peidio â gallu gweld wynebau'r bobl sy'n siarad amdanoch, ac i ni beidio â gallu gweld eu hwynebau nhw hefyd, oherwydd bod rhai pethau heriol iawn yn cael eu trafod, rhai pethau sy'n peri llawer o ofid; mae peidio â gallu darparu ymateb tosturiol dynol i hynny, yn enwedig fel bydwraig, rwy'n cael hynny'n anodd iawn, iawn, i wybod y gallai rhywun fod mewn gofid, o bosibl, ac ni allwn ei weld (Bydwraig).

Dywedodd gweithwyr proffesiynol ei bod yn aml yn amhosibl gweld pawb ar y sgrin, hyd yn oed ar liniadur. Er mwyn osgoi problemau lled band, weithiau byddai pawb yn ymuno trwy gamera ar ddechrau'r gynhadledd tra bod y cyflwyniadau a'r cyfarwyddiadau'n cael eu rhoi ac yna, heblaw am y gweithiwr cymdeithasol, y teulu a chadeirydd y gynhadledd, byddent yn diffodd eu camerâu tan iddynt siarad.

Cyfeiriwyd at lefelau amrywiol llythrennedd technoleg rhieni. Roedd sawl gweithiwr proffesiynol yn credu bod Zoom yn fwy greddfoll i rieni (a gweithwyr proffesiynol), ond bod pryderon ynglŷn â diogelwch yn golygu na chaniatawyd i'r rhan fwyaf o asiantaethau i'w ddefnyddio.

Pan anfonir dolen Zoom atoch, mae yna URL amlwg iawn; cod ydyw ac rydych chi'n clicio arno. Gyda Teams, rydych chi'n cael y peth sy'n dweud ymuno â Teams. Nid yw'n dweud cliciwch yma. Felly, mae (rhieni) yn ceisio dod o hyd i'r rhifau hynny, ac rydw i'n dweud, 'Allwch chi weld y geiriau sy'n dweud ymuno â Teams? Ie. Cliciwch ar hwnnw.' 'Beth, y rhif?' 'Na, na, nid y rhif, cliciwch ar ymuno â Teams.' Nid yw'n reddfol (Eiriolwr).

Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn cydnabod bod disgwyl i rai rhieni ddefnyddio technoleg i gymryd rhan, ac felly dangos eu parodrwydd a'u gallu i newid, yn 'ofyniad mawr', ond dim ond lleiafrif o'r rhai a gyfwelwyd a gododd y posibilrwydd bod hyn yn fater anghydraddoldeb y dylid ei adolygu.

Ni allaf hyd yn oed ddychmygu sut deimlad yw hynny; mae'n rhaid eu bod nhw [rhieni] yn teimlo mor ddatgysylltiedig o'r broses. Rwy'n ceisio meddwl am yr holl rai rydw i wedi bod iddynt... 10 neu 15 ers y cyfyngiadau symud, ac rwy'n credu bod y rhan fwyaf o'r rhieni wedi bod ar y ffôn. Rwy'n credu y dylai gael ei gofnodi, oherwydd nid yw'n deg. Mae'r gwasanaethau i blant wedi sefydlu'r system hon ac mae angen iddynt gymryd cyfrifoldeb am sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn. Ar yr un diwethaf, ni allech glywed y cadeirydd, roedd beth bynnag oedd yn digwydd ar ei hochr hi yn golygu ei bod hi'n aneglur iawn, nid oedd yr ansawdd yn ddigon da i'r sawl oedd yn cymryd cofnodion allu gwneud hynny. Dywedodd y rhieni nad oedden nhw'n gallu ei chlywed, ond fe aeth ymlaen serch hynny (Bydwraig).

Cymharodd ambell weithiwr cymdeithasol a chadeirydd cynhadledd y brwdfrydedd a welsant gan weithwyr proffesiynol wrth groesawu cynadleddau fideo a ffôn â phrofiad rhieni.

Rwy'n credu bod yr elfen rithwir yn rhoi mantais i'r gweithwyr proffesiynol ac anfantais anghymesur i deuluoedd. Yn enwedig y rhai hynny sydd heb fynediad at dechnoleg neu sydd ag anghenion ychwanegol (Cadeirydd cynhadledd).

Rwy'n ymwybodol o ba mor ormesol yw'r dull newydd hwn. Fel y dywedais, mae'n haws i mi fel gweithiwr proffesiynol, rwy'n dychwelyd i'm bywyd arferol ar ôl y cyfarfodydd, nid yw fy ffordd o fagu plant yn cael ei rhwygo'n ddarnau, mae'n wahanol iawn. Rwy'n meddwl am y ddelwedd o fam 25 oed roeddwn i'n gweithio gyda hi yr wythnos ddiwethaf a oedd yn eistedd yn ei hystafell fyw, ar ei phen ei hun, yn siarad am y tebygolrwydd bod gan ei phlentyn niwed i'w ymennydd. Roedden ni'n dweud wrthi ein bod ni'n credu bod tad y plentyn a'r cariad yn risg enfawr, ac fe osodon ni rai sancsiynau llym iawn ynglŷn â beth y caiff hi ei wneud a beth na chaiff

hi ei wneud. Rwy'n meddwl amdani'n eistedd yn ei hystafell fyw ar ei phen ei hun, fel rhiant wedi'i ynysu sy'n profi trais domestig, roedd hynny'n ofnadwy. Gadawodd flas drwg. Roedd fel petai'n mynd yn groes i holl egwyddorion gwaith cymdeithasol, roedd yn teimlo'n ddatrymusol ac fel lefel arall o ormes. Rwy'n credu y dylai'r ffaith bod y cynadleddau'n haws i ni yn y fformat hwn roi ysgytwad i ni, oherwydd does dim angen iddo fod yn hawdd i mi (Gweithiwr cymdeithasol).

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi cymryd camau i wneud cynadleddau'n fwy hygyrch i rieni. Ni allant fod yn gyfeillgar i rieni, ond does dim rhaid iddynt fod yn brofiadau bygythiol lle nad ydyn ni'n clywed eu lleisiau. Fe gefnon ni ar hynny i gyd dros nos bron, gan symud pob cynhadledd i'r ffôn ac ymddangos yn fodlon symud ymlaen p'un a oes ganddynt gysylltiad ai peidio (Gweithiwr cymdeithasol).

Cael cymorth

Mae natur gwaith amddiffyn plant yn golygu bod rhieni a theuluoedd yn cyfarfod â gweithwyr proffesiynol ar adegau heriol yn eu bywydau. Er bod rhai sy'n croesawu cymorth gweithwyr cymdeithasol i'w helpu i ymdopi ag adegau anodd, bydd eraill yn wrthwynebol, efallai oherwydd profiadau blaenorol neu deimladau o annigonolrwydd. Mae hyn weithiau'n achosi i rieni fod yn ddig ac yn elyniaethus, ond, os ymdrinnir â'r sefyllfa'n fedrus, mae'n bosibl ei thawelu a sefydlu perthynas weithio.

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r cadeiryddion cynadleddau a gyfwelwyd at adegau pan oedd rhieni wedi mynd yn ofidus neu'n ddig i'r graddau eu bod wedi gadael cynadleddau ffôn a fideo ac, yn wahanol i gynadleddau wyneb yn wyneb, ni allai unrhyw un fynd allan i geisio eu denu'n ôl i mewn. Fodd bynnag, dywedwyd bod llawer o'r rhieni wedi dychwelyd i wrando ar weddill y gynhadledd, o leiaf, hyd yn oed os nad oeddent wedi cymryd rhan. Roedd rhai cadeiryddion cynadleddau'n credu bod emosiynau wedi dwysáu yn ystod y cyfnod hwn.

Rydw i wedi bod yn gwneud cynadleddau am oddeutu tair blynedd a hanner erbyn hyn, a dydw i byth wedi gorfod dod â chynhadledd i ben oherwydd bod rhieni wedi bod yn elyniaethus, rydw i wastad wedi gallu ymdopi. Mae rhieni wedi bod yn ddig ac yn ofidus, ac mae ganddynt hawl i deimlo felly, ac mae rhieni'n gadael, ond dydw i byth wedi cael unrhyw broblemau mawr. Ond ers gwneud pethau yn y ffordd yma, bobol bach, yr elyniaeth oddi wrth rieni. A yw hynny oherwydd eu bod nhw'n ei glywed yn unig, nad yw'n wych iddynt? A yw oherwydd eu bod nhw yn eu cartrefi eu hunain ac felly'n fwy parod i regi a gweiddi? A yw oherwydd y pandemig a'n bod ni i gyd dan straen? Dydw i ddim yn gwybod, ond rwy'n gwybod bod eu gelyniaeth a'u dicter wedi gwaethygu llawer, ac rwy'n teimlo'n bryderus fy hun ar ôl y rhai hynny; mae'n ofnadwy, dwi ddim yn edrych ymlaen at gynadleddau o gwbl (Cadeirydd cynhadledd).

Rydw i wedi gweld teuluoedd yn cyrraedd ar gyfer cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol sydd wedi dod i mewn o'u cof, yn gandryll. Maen nhw wedi darllen yr adroddiad, a dydyn nhw ddim yn credu ei fod yn iawn. Yna, maen nhw wedi cael hanner awr gyda'r cadeirydd o flaen llaw. Efallai y bu'n rhaid i'r cadeirydd ddweud rhai pethau anodd yn ystod y cyfnod hwnnw, nid maldodi pobl yw'r nod, ond rydw i wedi gweld pobl yn dod i mewn, o leiaf bum gwaith, yn ysu am wrthdaro ac yna'n

mynd allan, ar ôl cytuno bod angen cynllun. Rydw i wedi'u clywed yn dweud wrth y cadeirydd, diolch yn fawr, fe wela i chi'r tro nesaf... nawr, ni fyddai hynny wedi digwydd ar y ffôn neu ar Teams, dim o gwbl (Rheolwr cynadleddau amddiffyn plant).

Gallai'r gwahaniaeth o ran lleoliad hefyd olygu nad oedd digwyddiadau a allai fod wedi dod â chynhadledd i ben mewn swyddfa yn cael atal y rhai hynny a gynhelir yn rhithwir, weithiau.

Roedd gennyf un gynhadledd lle'r oedd mam y plant yn dweud bod ganddi feigrin a'i bod hi'n wael iawn. Roedd hi'n chwydu mewn powlen yn ystod y gynhadledd, ac yn gorwedd o dan flanced ar y sofffa yn gyffredinol. Roedd ffrind yn ei helpu ac yn dal y ffôn. Roedd y tad yn eithaf pengaled ynglŷn â'r holl broses ac yn rholio ei lygaid a throi i ffwrdd oddi wrth y camera ac yn bod yn eithaf gwrthryfelgar a negyddol yn gyffredinol. Oni bai am y ffrind a oedd yn eu helpu nhw a ni, rwy'n credu y buasai wedi bod yn amhosibl parhau (Nyrs ysgol).

Yn yr achos hwn, gwahoddwyd y fam i adael, ond fe fynnodd aros. Roedd rhybudd bygythiad i fywyd ar waith, felly teimlwyd ei bod yn bwysicach bwrw ymlaen na pheidio.

Roedd enghreifftiau o sefyllfaoedd lle, er gwaethaf cyfyngiadau COVID-19, y bu trefniadau ar waith i sicrhau bod rhieni'n cael eu cynorthwyo yn ystod cynadleddau. Yr argraff, yn gyffredinol, oedd mai lleiafrif yn unig o rieni a gafodd lefel sylweddol o gymorth, ond fe allai ddod o amryw ffynonellau.

Roedd enghreifftiau o weithwyr cymdeithasol yn mynd i mewn i gartref y teulu, er bod yr arfer hwn yn amrywio o fewn ac ar draws awdurdodau lleol. Lle'r oedd hyn wedi digwydd, rhoddodd y cyfweleion adborth cadarnhaol at ei gilydd. Fodd bynnag, effeithiwyd ar y gallu i wneud hyn gan benderfyniadau a wnaed gan asiantaethau a thimau, a pharodrwydd unigolion i fynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Yn ddelfrydol, rydyn ni'n trefnu i weithiwr cymdeithasol eistedd mewn ystafell. Rydyn ni wedi cael gweithwyr cymdeithasol yn eistedd yn nhŷ'r rhieni gyda nhw, gan gadw pellter cymdeithasol a gwisgo masgiau, yn rhannu gliniadur, ond, yn amlwg, mae rhai rhieni sydd â chysylltiadau WiFi annibynadwy neu ddim o gwbl (Cadeirydd cynhadledd).

Fe gawson ni neges e-bost oddi wrth fam yr oedd ei phlant wedi cael cynllun amddiffyn plant o'r blaen, felly roedd hi'n gwybod beth oedd cynadleddau amddiffyn plant, ond y gynhadledd hon oedd yr un gychwynnol gyntaf yn ei hymwneud diweddar. Aeth gweithiwr cymdeithasol i'w chartref ac agor ei gliniadur, ac roedd hi'n gallu gweld wynebau'r holl gyfranogwyr a chlywed wrth iddynt siarad, un ar y tro. Dywedodd ei bod hi'n teimlo llawer mwy fel rhan o grŵp, ac er bod y gweithiwr cymdeithasol a oedd yn eistedd nesaf ati yn cadw pellter cymdeithasol, roedd hi wedi teimlo rhywfaint o gynhesrwydd a gofal a charedigrwydd. Fe ysgrifennodd hi i ddweud pa mor garedig a gofalgaf y bu'r cadeirydd a'r gweithiwr cymdeithasol (Uwch reolwr mewn tîm cynadleddau amddiffyn plant).

Dim ond un sydd wedi digwydd yn y ffordd honno yn fy mhrofiad i, ac roedd yn ddefnyddiol iawn, ond rwy'n credu efallai y byddai'r mwyafrif o weithwyr cymdeithasol wedi gwrthwynebu ei wneud bryd hynny [yn ystod y cyfnod clo cyntaf]. Yn yr achos

dan sylw, mae gan y fam ddementia cynnar ac roedd y gweithiwr cymdeithasol yn credu y byddai'n fuddiol mynd i'w chartref gyda'i gliniadur. Ond, unwaith eto, mae hi'n weithiwr cymdeithasol sy'n mynd gam ymhellach gyda'i theuluoedd. Roedd hi'n gwisgo mwgwd ac roedd y gynhadledd yn un hir oherwydd bod llawer o asiantaethau'n gysylltiedig, ond fe weithiodd yn dda iawn ac rwy'n credu y bu hynny'n fuddiol, i'r plant sy'n hŷn ac a oedd yn gallu cymryd rhan mewn rhan ohoni, ac, rwy'n credu, i'w mam a oedd yn gallu cyfleu ei safbwyntiau (Cadeirydd cynhadledd).

Yn ogystal â chymorth gan eiriolwyr a gweithwyr cymdeithasol, cafodd rhieni a oedd yn ymuno â chynadleddau o leoliadau eraill ffynonellau cymorth eraill hefyd, weithiau.

Rydw i wedi gwneud dwy gynhadledd yn yr ysbyty a oedd i fod yn gynadleddau cyn-enedigol, ond dechreuodd y babanod ddod yn gynnar, felly roedden nhw'n gynadleddau ôl-enedigol yn y diwedd. Yna helpais i osod y rhieni ar Teams ac rydyn ni wedi'i gwneud yn yr un ystafell, gan gadw pellter cymdeithasol, ar sgrin (Bydwraig).

Mynegwyd llawer o bryder ynglŷn â rhieni, fel arfer mamau, a oedd ar eu pen eu hunain heb unrhyw un i'w cynorthwyo.

Fel arfer, byddwn i'n eistedd wrth ochr y rhiant, a byddwn i'n adnabod y rhiant yn dda iawn. Ond, dydw i ddim wedi cyfarfod â rhai o'r rhieni rwy'n gweithio gyda nhw nawr wyneb yn wyneb oherwydd dechreuais weithio gyda nhw ar ôl mis Mawrth. Rydw i ar ochr arall y ffôn ac yn gorfod gwrando am arwyddion, fel tŷn eu llais os ydyn nhw'n swnio'n ansicr neu os yw gweithwyr proffesiynol yn defnyddio terminoleg sy'n amlwg yn anodd, felly mae'n wahanol. Pan fyddwch chi'n eistedd wrth ymyl rhywun, rydych chi'n gwybod yn syth pan fydd yn bryderus, neu pan nad yw'n deall rhywbeth neu os ydyw eisiau dweud rhywbeth (Eiriolwr).

Rwy'n teimlo'n eithaf pryderus ynglŷn â hynny oherwydd pan fyddwn ni'n cynnal cynhadledd amddiffyn plant arferol yn ein swyddfeydd, sy'n oer, ac arnynt aroglau tamprwydd, mae'n fygythiol iawn ac rwy'n credu ei fod yn amgylchedd ofnadwy. Ond, os bydd pethau'n mynd yn drwm iawn fe allan nhw fynd i dawelu, a bydd rhywun sy'n llai brawychus na gweithiwr cymdeithasol, efallai yr ymwelydd iechyd neu'r gweithiwr cymorth o'r uned mamau a babanod, yn mynd allan o'r cyfarfod i gynnig cymorth. Yr wythnos ddiwethaf, roedd mam yn eistedd yn ei hystafell fyw ar ei phen ei hun yn gwrando ar bethau beirniadol iawn a doedd neb yno i'w chefnogi. Doeddwn i ddim yn hoffi hynny o gwbl (Gweithiwr cymdeithasol).

Roedd gweithiwr mewn lloches wedi bod gyda mam wrth iddi ddeialu i mewn i gynhadledd ar y ffôn. Gofynnodd y gweithiwr cymdeithasol gwestiwn iddi a berodd ofid i'r fam, ond doedd neb yn gallu gweld hynny. Ni atebodd y fam, felly esboniodd y gweithiwr pam nad oedd y fam yn ymateb.

Fwy na thebyg, byddai'r fam wedi dweud 'dwi'n iawn'. Rwy'n credu y byddai'r gweithiwr cymdeithasol wedi casglu beth oedd hi eisiau ei ddweud ac yna byddai'r fenyw yr oeddwn i'n ei chefnogi wedi ymateb yn unol â hynny. Ond, yn amlwg, oherwydd fy mod i wedi gweld pa mor drallodus oedd hi, fe ysgogodd hynny

drafodaeth, ac rwy'n credu eu bod nhw wedi deall beth oedd y fam yn meddwl wedyn. 'Taswn i ddim wedi bod yno, dydw i ddim yn credu y byddai'r sgwrs 10, 15 munud honno wedi digwydd, a byddai'r fam wedi dweud, na dwi'n iawn, a bwrw ymlaen, ac ni fyddai trafodaeth bellach wedi bod ynglŷn â pham yr oedd hi mor drallodus (Gweithiwr lloches).

Defnyddir cyfieithwyr yn gyffredin mewn cynadleddau amddiffyn plant pan nad oes gan y rhieni ddefnydd da a/neu ddealltwriaeth o'r Saesneg, ond gall ansawdd y ddarpariaeth, a geir dros y ffôn weithiau, hyd yn oed pan fydd cynadleddau wyneb yn wyneb, amrywio'n fawr (Chand 2005; a Westlake a Jones 2018). Pan oedd angen cyfieithwyr, byddai unigolyn naill ai gyda'r teulu neu defnyddiwyd gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn. Er y gwnaed sylwadau a oedd yn awgrymu bod gwasanaethau cyfieithu dros y ffôn wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, unigolyn gyda'r rhiant oedd y dewis a ffeifrir, ond anaml yr oedd hynny ar gael. Gallai cyfieithydd ar y ffôn gyflwyno problemau ychwanegol pan oedd y gynhadledd ei hun ar y ffôn. Mae profiad wedi dangos, heb gyfieithydd medrus sy'n gyfarwydd â rheoli cynadleddau ffôn neu fideo, ac a oedd yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'r rhieni, y gallai'r cyfarfod fynd yn eithriadol o hir a chymhleth. Ni chrybwyllodd yr un o'r rhieni a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn eu bod wedi cael mynediad at gyfieithydd na bod angen un arnynt. Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil i gael dealltwriaeth ddyfnach o effaith newidiadau i arferion wrth ymateb i COVID-19 ar ddefnyddio cyfieithwyr.

Heriau ychwanegol i rieni ac aelodau teuluoedd ag anableddau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg sut, os o gwbl, y bodlonwyd anghenion rhieni ac aelodau teuluoedd ag anableddau, gan gynnwys y rhai hynny ag anableddau dysgu, tra oeddent yn ymwneud â chynhadledd amddiffyn plant. Dywedodd un o bob pump o gadeiryddion a gweithwyr cymdeithasol nad oedd trefniadau ar waith i fodloni anghenion rhieni ag anableddau, ac nid oedd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol nad oeddent yn dod o adran gofal cymdeithasol i blant yn ymwybodol o unrhyw drefniadau.

Bydd gwahanol anableddau'n effeithio ar ymgysylltiad â chynadleddau amddiffyn plant mewn gwahanol ffyrdd, neu ni fyddant yn cael unrhyw effaith o gwbl mewn rhai achosion. Nododd rhai gweithwyr cymdeithasol fod rhieni ag anableddau corfforol yn aml yn 'gyfarwydd â thechnoleg' a'u bod yn cael llai o broblemau wrth ymuno â chynadleddau rhithwir. Ychydig iawn o gyfeiriadau a wnaed at gynadleddau a oedd yn cynnwys rhieni ag unrhyw fath o anabledd, heblaw am anabledd dysgu, ond mae'n werth crybwyll y rhai a amlygwyd. Roedd pryderon penodol ynglŷn â rhieni ag iechyd meddwl gwael, lle y gallai fod effaith sylweddol ar lefelau gorbryder a straen ac, o ganlyniad, ar barodrwydd rhieni i glywed 'negeseuon anodd'. Un cyfeiriad yn unig oedd at riant â nam ar y golwg, ac yn yr achos hwnnw roedd yr elfen fideo'n achosi problemau.

Dywedodd rhiant sy'n rhannol ddall y bu'r gynhadledd (fideo) yn eithaf dryslyd iddi. Ni roddwyd ystyriaeth i hyn oherwydd bod y rhiant wedi dweud ei bod hi'n gwneud galwadau fideo gyda'i mam yn rheolaidd, ond roedd y ffaith bod nifer o bobl ar yr alwad fideo wedi achosi anhawster (Gweithiwr cymdeithasol – arolwg).

A soniodd cadeirydd cynhadledd yn yr arolwg am y problemau a gododd pan oedd gan dad nam ar y lleferydd:

Roedd ganddo nam sylweddol ar ei leferydd ac fe'i cynorthwywyd i ymuno, ond roedd y gynhadledd ffôn yn rhwystr enfawr iddo rhag cymryd rhan yn llawn. Ond mae'n bosibl y byddai hyn wedi bod yn heriol iddo wyneb yn wyneb hefyd.

Cyfeiriwyd droeon yn yr arolwg a'r cyfweiliadau at ddefnyddio cyfieithwyr laith Arwyddion Prydain ar gyfer rhieni a oedd yn fyddar neu wedi colli eu clyw'n sylweddol. Yr unig broblem a grybwyllwyd, sy'n peri syndod efallai, oedd y straen a roddodd hyn ar yr arwyddwyr a'r rhieni.

Mewn un achos, roedd y rhieni â nam ar y clyw wedi gallu cysylltu trwy'r fideo â'r cyfieithwyr laith Arwyddion Prydain, a weithiodd yn rhesymol dda. Fodd bynnag, er bod y cyfieithwyr yn cyfnewid lle bob 20 munud oherwydd bod yr amser sgrin yn achosi cymaint o flinder, ni allai'r rhieni wneud hynny (Gweithiwr cymdeithasol – arolwg).

Fodd bynnag, mynegwyd mwy o bryderon ynglŷn â rhieni ag anawsterau neu anableddau dysgu. Dywedwyd bod rhieni â'r anghenion ychwanegol hyn wedi ei chael hi'n fwy anodd ymdopi â'r cyfyngiadau ac y bu arnynt angen mwy o gymorth nag arfer. Ysgrifennodd un gweithiwr cymdeithasol fod disgwyl i rieni ag anableddau dysgu ymgysylltu yn yr un ffordd â phob rhiant arall. Roedd y ffaith na ellid gweld iaith y corff a mynegiant wyneb yn golygu na ellid asesu a oedd rhieni'n dilyn y gynhadledd. Yn absenoldeb addasiadau rhesymol, teimlai un cadeirydd nad oedd yn bosibl cynorthwyo rhieni ag anableddau dysgu yn ddigonol.

Rydw i wedi cadeirio llawer o gynadleddau lle'r oedd yr asesiadau wedi amlygu anawsterau dysgu ac nid oedd unrhyw fodd y gallwn i, fel cadeirydd, eu cynorthwyo trwy gynhadledd rithwir. Roeddwn i'n teimlo diffyg mawr o ran sgiliau ac rwy'n siŵr yr oedden nhw'n teimlo'n gwbl ddi-rym (Cadeirydd cynhadledd).

Y trefniant mwyaf cyffredin i gynorthwyo rhieni ag anableddau oedd darparu eiriolwr. Gwnaed ambell gyfeiriad at ailysgrifennu dogfennau i'w gwneud yn fwy hygyrch a chymorth ychwanegol gan y gweithiwr cymdeithasol.

Rydyn ni wedi parhau i gynorthwyo tad ag anawsterau dysgu trwy ddefnyddio eiriolwyr. Roedd tad ag awtistiaeth o'r farn bod y gynhadledd fideo yn haws cymryd rhan ynddi (Cadeirydd cynhadledd – arolwg).

Aeth un gweithiwr cymdeithasol i'r cartref i esbonio'r broses a mynd trwy'r adroddiadau, ac roedd un arall gyda nhw ar y diwrnod (Cadeirydd cynhadledd – arolwg).

Amlygwyd yr her sy'n gysylltiedig â defnyddio technoleg hefyd gan eiriolwr a oedd yn gweithio gyda rhieni ag anableddau dysgu. Roedd hi wedi adrodd yn ôl y cwynion a gafodd gan rieni, a oedd yn credu bod penderfyniadau'n cael eu gorfodi arnynt i raddau mwy fyth nag yn ystod yr adeg 'normal'. Roedd y rhieni hyn yn ei chael hi'n anodd deall y syniad o gynhadledd rithwir. Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r eiriolwyr i archwilio sut gellid gwneud pethau'n wahanol, ond roedd yn anodd iawn dod o hyd i ddatrysiaid amgen.

Rwy'n gweld yn y menywod rwy'n gweithio gyda nhw bod ymgysylltu trwy dechnoleg yn heriol. Rydyn ni'n gofyn i fenywod gymryd rhan mewn cyfarfodydd pwysig iawn gyda gweithwyr proffesiynol sy'n disgwyl iddynt ddeall a gweithio gyda nhw a dangos cydweithrediad a pharodrwydd i ymgysylltu â dangos eu galluoedd fel rhieni. Rwy'n credu ei bod yn beth mawr gofyn iddyn nhw wneud hynny yn y math o fyd y mae'n rhaid i ni addasu iddo. Felly, yn fy mhrofiad i, mae menywod yn gweld hyn yn heriol – nid pob un, ond llawer (Eiriolwr – cyfweiliad).

Roedd faint o gymorth wyneb yn wyneb a oedd ar gael i rieni yn amrywio. Mewn rhai awdurdodau, dywedwyd ei fod yn lleiafswmiol neu ddim yn bodoli. Roedd un gwasanaeth eirioli'n gweithio ar draws nifer o awdurdodau gyda rhieni ag anawsterau dysgu. Byddai ei weithwyr yn mynd i mewn i gartrefi pobl yn ystod y pandemig os gallent gadarnhau bod hynny'n ddiogel ac y gellid cadw pellter cymdeithasol. Lle nad oedd hynny'n ddiogel nac yn ymarferol, defnyddiodd yr eiriolwyr westai a neuaddau pentref. Yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, os oedd yr eiriolwr a'r rhiant mewn ystafelloedd ar wahân, i gadw pellter cymdeithasol, roeddent yn ceisio sicrhau nad oedd rhaid i'r rhiant ymuno trwy ei unig ddyfais, fel y gallent gadw mewn cysylltiad trwy neges destun os oedd angen heb adael y gynhadledd. Prynodd y gwasanaeth liniaduron ychwanegol i fynd i'r afael â'r broblem hon. Yn yr un modd, defnyddiodd awdurdod lleol arall liniaduron a oedd yn weddill a neilltuwyd i blant sy'n derbyn gofal i'w benthyca i rieni fel y gallent ymuno â chynadleddau amddiffyn plant. Mewn man arall, pan uwchraddiodd yr adran gofal cymdeithasol i blant liniaduron gwaith, dilëwyd data o'r hen rai ac fe'u rhoddwyd i deuluoedd. Ond nid oedd datrysiadau fel y rhain bob amser ar gael.

Gweithwyr proffesiynol

Roedd mwyafrif y gweithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r arolwg o'r farn bod manteision, yn ogystal ag anfanteision, iddyn nhw yn y ffordd yr oedd cynadleddau'n cael eu cynnal.

Ystod ehangach o weithwyr proffesiynol yn cymryd rhan

Un o'r manteision arwyddocaol a amlygwyd oedd bod ystod ehangach o weithwyr proffesiynol yn bresennol. Roedd hanner y cadeiryddion cynadleddau a'r gweithwyr cymdeithasol a ymatebodd i'r arolwg yn credu bod presenoldeb gweithwyr proffesiynol eraill mewn cynadleddau wedi cynyddu a bod rhai proffesiynau/asiantaethau nad oeddent wedi'u cynrychioli braidd o gwbl wedi dechrau mynychu. Dywedodd bron hanner y gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd hefyd eu bod wedi sylwi ar newid mewn presenoldeb, yn enwedig ymhlith meddygon teulu, pediatregwyr, gweithwyr y gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), a hyd yn oed seiciatryddion sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd meddwl oedolion.

Mae presenoldeb wedi gwella, presenoldeb amlasiantaethol. Rydyn ni wedi cael mwy o feddygon, rydyn ni wedi cael rhai ymarferwyr iechyd meddwl, er enghraifft, seiciatryddion na fyddent wedi bod yn bresennol o'r blaen, o bosibl, rydyn ni wedi cael pediatregydd ymgynghorol yn dod i mewn oherwydd cafodd wahoddiad rhithwir... Felly, rydyn ni wedi gweld gwelliant mewn presenoldeb oherwydd eu bod nhw'n gallu ffitio'r rhain i mewn i'w diwrnod gwaith (Cadeirydd cynhadledd).

Rydyn ni wedi cael CAMHS, seiciatryddion, gwasanaethau dibyniaeth ar alcohol, yn cymryd rhan, ond petai'n gynhadledd wyneb yn wyneb, rwy'n gwybod na fyddent yn mynychu. Yn y modd hwn, maen nhw'n gallu mynychu, maen nhw'n gallu deialu i mewn, felly mae hynny wedi bod yn dda iawn (Bydwraig).

Felly, mae wedi bod yn fonws go iawn bod meddygon teulu wedi dechrau mynychu, gan nad oeddent byth o'r blaen, byth... fe allan nhw roi gwybodaeth dda iawn, felly mae hynny wedi bod yn gadarnhaol iawn. Rydw i wedi bod yn gwneud cynadleddau ers rhyw 20 mlynedd, mewn gwirionedd, ac mae'r newid ynddynt wedi bod yn enfawr, ond mae'r ffaith bod meddygon teulu'n mynychu yn wych (yr Heddlu).

Roedd mewnbwn gan grŵp proffesiynol ehangach yn golygu bod mwy o wybodaeth am deuluoedd a'r cymorth y dylid ei ddarparu. Yn yr un modd, soniodd ambell unigolyn hefyd ei bod yn fuddiol gallu gofyn i gydweithwyr ymuno am gyfnod byr i roi gwybodaeth ychwanegol.

Roedden ni'n gallu dod â'n cwnselydd ysgol i mewn, na fyddai'n gallu mynd i gynhadledd wyneb yn wyneb fel arfer, ac roedd yn ddefnyddiol iawn oherwydd ei bod hi wedi gwneud llawer o waith dwys gyda'r plentyn (Arweinydd diogelu dynodedig mewn ysgol).

Yr adborth a gafwyd gan y gweithwyr iechyd proffesiynol hynny nad oeddent wedi mynychu cynadleddau o'r blaen oedd eu bod wedi gwerthfawrogi'r cyfle i gyfrannu. Fodd bynnag, tybiwyd y byddai modd cynnal hyn dim ond pe gallent barhau i ymuno â chynhadledd rithwir, ac y byddai eu mewnbwn yn cael ei golli petai'r fformat cynadleddau traddodiadol yn dychwelyd yn y dyfodol.

Rydyn ni wedi cael pediatregwyr yn ymuno, ac maen nhw wedi dweud 'Fe alla'i wneud hyn oherwydd 'mod i'n rhydd rhwng dau o'r gloch a hanner awr wedi, felly fe ddof i bryd hynny, fe ymunaf â'r cyfarfod bryd hynny ac yna bydd rhaid i mi fynd, gwaetha'r modd', ond ni fyddem yn cael hynny mewn cynhadledd wyneb yn wyneb (Gweithiwr cymdeithasol).

Rydw i yn (un rhan o) Llundain, ond byddai'n cymryd awr a hanner o deithio'r ddwy ffordd i feddyg ddod o Great Ormond Street, felly ni fyddem byth yn eu cael nhw. Ond mae'r ffaith eu bod nhw wedi ymuno ar-lein, naill ai am y cyfarfod llawn neu hyd yn oed hanner ohono, wedi bod yn werthfawr iawn (Cadeirydd cynhadledd).

Llai o amser teithio

Un o'r manteision a nodwyd yn aml i weithwyr proffesiynol oedd bod cryn dipyn o amser teithio'n cael ei arbed gan fod y rhan fwyaf o gynadleddau'n cael eu cynnal dros y ffôn neu drwy fideo bellach. Roedd hyn yn ymddangos yr un mor bwysig ar draws y proffesiynau/asiantaethau a ph'un a oeddent mewn lleoliad trefol neu wledig. Soniodd y rhai hynny mewn lleoliadau trefol at yr amser a arbedwyd trwy beidio ag eistedd mewn traffig neu orfod dod o hyd i le parcio'n agos i'r lleoliad, ac roedd y rhai a oedd yn gweithio mewn ardaloedd gwledig wedi teithio cannoedd o filltiroedd yr wythnos yn flaenorol i fynychu cynadleddau y gellid ymuno â nhw o swyddfa neu o gartref bellach.

Mae'n fuddiol i'r sefydliad hefyd oherwydd fy mod i'n gwneud pethau eraill yn ogystal â'r cynadleddau. Rydw i wedi llwyddo i wneud cynhadledd yn y bore, cynhadledd yn y prynhawn, cyfarfod strategaeth yn y canol ac un ar ddiwedd y dydd (yr Heddlu).

Haws rheoli tensiynau anodd

Yn wahanol i rai o'r sylwadau a nodwyd uchod ynglŷn â'r anawsterau wrth dawelu gwrthdaro mewn cynadleddau, roedd rhai gweithwyr proffesiynol o'r farn bod y cyfryngau newydd yn haws wrth ymgysylltu â rhieni heriol.

Nid wyf yn gweld gwahaniaeth mawr. Rwy'n ei fwynhau, mewn gwirionedd. Roedd gen i rai rhieni heriol iawn ac rwy'n credu yr oedd yn haws i mi eu rheoli dros Teams na phetawn i wyneb yn wyneb (Gweithiwr cymdeithasol).

Soniodd nifer o weithwyr proffesiynol am hyn mewn perthynas â phryderon ynglŷn â'u diogelwch.

Rwy'n teimlo braidd yn chwithig yn cyfaddef hyn, ond mae'n well gen i'r rhain. Rydw i wedi cael fy mygwth mewn cynadleddau yn y gorffennol. Petai hynny'n digwydd dros y ffôn byddai'n brofiad gwahanol i un lle mae'n rhaid i rieni gael eu hebrwng oddi ar y safle a lle'r ydw i wedi cael fy nghynghori i fod yn ofalus wrth adael y swyddfa a cherdded i'm car (Gweithiwr cymdeithasol).

Roedd llawer o'r gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd yn credu bod mwy o gyfrifoldeb ar gadeiryddion cynadleddau bellach i reoli sefyllfaoedd pan fydd rhieni'n mynd yn ddiog neu'n gynhyrfus, a bod eu gwaith wedi mynd yn fwy heriol o ganlyniad. Pan oedd yr holl gyfranogwyr wedi gallu bod yn yr un ystafell, byddai ymateb a rennir wrth geisio tawelu sefyllfaoedd.

...byddech chi'n gwneud mwy gydag iaith y corff, yn codi eich dwylo, yn dweud gadewch i ni dawelu'n lleisiau, ac yn barnu pwy sy'n mynd i neidio i mewn, ond mae'n gymaint yn anoddach. Pan fyddwch chi ar y ffôn, rydych chi'n gadael y rhannau hynny a mwy i'r cadeirydd, oherwydd dydych chi ddim eisiau dod i mewn yn sydyn a cheisio gwneud yr un peth ar yr un pryd, ond os ydych chi'n gallu gweld pobl fe allwch chi farnu pwy sy'n mynd i neidio i mewn (Gweithiwr cymorth i deuluoedd).

Croesawu defnyddio technoleg

Roedd rhai gweithwyr proffesiynol wedi croesawu defnyddio technolegau newydd, gan ddweud bod COVID-19 wedi cyflymu arloesi technolegol.

Mae COVID-19 wedi ein gorfodi i groesawu technoleg a mynd ati i'w defnyddio! Fe siaradon ni gryn dipyn am gynnig gwasanaeth digidol, ond roedden ni'n betrus. Nawr, rydyn ni i gyd yn arbenigwyr! (Ymwelydd iechyd – arolwg)

Roedden ni wedi buddsoddi mewn arloesi digidol ar gyfer cynadleddau amddiffyn plant rywbryd cyn COVID, ac roedd hynny wedi hwyluso'r newid i gynadleddau yn ystod y cyfnod clo. Golygodd hefyd nad oedd bwllch yn y gwasanaeth a bod cynadleddau wedi newid i fod yn rhithwir dros nos. Roedd y dulliau digidol hyn yn cynnwys recordiad sain o'r gynhadledd, a oedd yn golygu nad oedd angen i rywun

gymryd cofnodion ac nad oedd angen i gadeiryddion cynadleddau deipio'r crynodeb arwyddion diogelwch/cynllun/ac ati yn fyw yn y gynhadledd, a defnyddio adborth electronig trwy god QR/dolen i dudalen we. Rydyn ni wedi treialu meddalwedd cofnodi di-bapur yn ystod y cyfnod clo i ddarparu plattform diogel a rennir fel bod pawb sy'n mynychu cynhadledd yn gallu rhannu a darllen adroddiadau a dogfennau'r gynhadledd (Gofal cymdeithasol i blant – arolwg).

Cyfeiriodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd at ba mor bwysig ydoedd i gadeiryddion cynadleddau fod yn ddigon cymwys yn dechnegol i allu ymdopi â phroblemau a oedd yn codi. Cytunwyd yn gyffredinol bod y trefniadau presennol yn rhoi llawer mwy o gyfrifoldeb ar gadeiryddion cynadleddau i allu addasu'r 'hen' fodel ac yna gwneud i'r un newydd weithio. Er bod gallu cadeiryddion cynadleddau bob amser wedi bod yn allweddol i gynnal cynadleddau'n dda, ystyriwyd bod hynny'n hollbwysig bellach, nid yn unig i esbonio'r broses a gwneud i deuluoedd deimlo'n gyfforddus, ond hefyd i esbonio'r dechnoleg mewn ffordd a oedd yn ddealladwy i rywun lleyg, os oedd angen. Os nad oedd sefyllfaoedd o'r fath yn cael eu trin yn briodol, dywedwyd bod hyder yn y broses yn cael ei danseilio'n gyflym.

Roedd anawsterau eraill a amlygwyd yn cynnwys cysylltiadau rhyngurwyd neu signalau ffôn o ansawdd gwael, diffyg hyfedredd wrth ddefnyddio cyfarpar a rhaglenni, a rhwystredigaeth yn deillio o'r ffaith bod asiantaethau gwahanol yn defnyddio pecynnau meddalwedd gwahanol a oedd yn amharu ar gyfathrebu effeithiol.

Problemau technegol fu'r prif beth – sicrhau bod pobl yn mewngofnodi. Gall hyn fod yn rhwystredig pan fydd yn cymryd 30 munud i gael pawb i mewn (Bydwraig).

Dwi'n ei chael hi'n anodd deall pam mae'r tri awdurdod rydw i'n eu gwasanaethu yn defnyddio technolegau gwahanol ar gyfer eu cynadleddau. Ni fydd fy ngliniadur gwaith yn caniatáu fideos ar Skype neu Google Meet, felly mae'n rhaid i mi ymuno dros y ffôn, sy'n rhwystredig pan fo Microsoft Teams yn gweithio mor dda (yr Heddlu).

Mae'r heddlu'n dal i gael trafferth cysylltu trwy fideo a gallant gysylltu dros y ffôn yn unig oherwydd nad oes ganddyn nhw Teams (Cadeirydd cynhadledd).

Gwell effeithlonrwydd

Soniodd cadeiryddion cynadleddau am sut oedd y rhai a oedd yn mynychu wedi paratoi'n well nag y byddent o'r blaen, yn aml. Priodolwyd hyn yn bennaf i'r amser a oedd ganddynt bellach i ddarllen ac ystyried adroddiadau, yn hytrach na'r system arferol lle'r oedd gweithwyr proffesiynol yn cyrraedd yn gynnar ac yn eistedd mewn ystafell i'w darllen. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn credu bod y cynadleddau'n fyrrach na chyn COVID-19.

Rydw i bob amser yn credu eu bod nhw ychydig yn gyflymach oherwydd bod pobl yn tueddu i ddarllen eu hadroddiad yn uchel ac maen nhw'n strwythuredig iawn; mae'r cadeiryddion wedi bod yn eu rheoli'n eithaf da oherwydd bod rhaid iddynt fod yn glir iawn ynglŷn â phwy maen nhw eisiau iddo siarad ac nid ydynt yn caniatáu unrhyw dorri ar draws (Bydwraig).

Cafwyd nifer sylweddol o gyfeiriadau hefyd at sut oedd gweithwyr proffesiynol yn ymddangos yn fodlon cyfleu gwybodaeth mewn ffordd fwy uniongyrchol na phe byddent wyneb yn wyneb â rhieni.

Rwy'n credu bod llawer o bobl mewn cynadleddau nad ydynt yn hoffi wyneb yn wyneb mewn gwirionedd, maen nhw'n anghyfforddus â hynny, felly mae bod ar Teams yn rhoi rhwystr o ryw fath ac maen nhw ychydig yn fwy pendant yn yr hyn maen nhw'n ei ddweud, oherwydd eu bod nhw'n gwybod nad yw'r unigolyn yn gallu gwneud unrhyw beth. Mae'n rhoi rhwyd ddiogelwch o ryw fath iddynt, fel y gallan nhw ddweud rhai pethau na fydden nhw'n eu dweud, o bosibl, petaen nhw'n eistedd yn yr ystafell nesaf at yr unigolyn (yr Heddlu).

Rwy'n credu bod hyn yn gysylltiedig â'r ffordd mae'r gweithwyr proffesiynol yn gwneud eu hadroddiadau. Yn aml, bydd yr adroddiadau ychydig yn fwy di-flewyn-ar-dafod nag y byddent wrth rannu pethau ar lafar fel arfer, ac weithiau ni fydd gweithwyr proffesiynol yn rhannu'r adroddiadau hynny pan fyddan nhw wedi bod yn fwy di-flewyn-ar-dafod oherwydd eu bod nhw'n poeni am yr effaith ar y berthynas. Ond mae rhywbeth am yr atebolrwydd hynny, rwy'n credu ei bod yn haws rhannu os nad ydych chi yn yr ystafell neu'n ei ddweud. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth (Cadeirydd cynhadledd).

Roedd cynadleddau fideo a ffôn, o bosibl, wedi dileu elfen o gymedroldeb trwy wneud y rhyngweithiad yn llai personol na phetai'r rhiant yn eistedd wrth ymyl y gweithwyr proffesiynol.

Mae'n ymddangos bod gan weithwyr cymdeithasol fwy o ddewrder i'w dweud hi fel y mae. Rwy'n gwybod y dylen nhw bob amser feddu ar yr hyder hwnnw, ond weithiau mae'n anodd os ydyn nhw'n delio â rhiant sy'n eithaf ymosodol. Teimlais fod y negeseuon yn fwy clir, yn fwy cryno. Efallai eu bod nhw'n meddwl 'Wel, does dim rhaid i mi eistedd yn yr un ystafell â rhywun sy'n gwgu arnaf am ddwy awr', felly efallai bod gwrs yma ynglŷn ag uwchsgilio gweithwyr cymdeithasol, yn arbennig, i gyfleu'r negeseuon anodd hyn (Nyrs ysgol).

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y llinell rhwng gonestrwydd a siarad yn swta yn un denau, ac awgrymodd rhai cyfweleion er y gallai cyfathrebu rhithwir annog rhai gweithwyr proffesiynol i fod yn fwy agored, y gallai hefyd achosi problemau pan nad oedd neb wrth law yn gorfforol i helpu rhieni trwy drafodaethau anodd.

Rwy'n credu bod hyn yn gysylltiedig â'r ffordd mae'r gweithwyr proffesiynol yn gwneud eu hadroddiadau. Yn aml, bydd yr adroddiadau ychydig yn fwy di-flewyn-ar-dafod nag y byddent wrth rannu pethau ar lafar fel arfer, ac weithiau ni fydd gweithwyr proffesiynol yn rhannu'r adroddiadau hynny pan fyddan nhw wedi bod yn fwy di-flewyn-ar-dafod oherwydd eu bod nhw'n poeni am yr effaith ar y berthynas. Ond mae rhywbeth am yr atebolrwydd hynny, rwy'n credu ei bod yn haws rhannu os nad ydych chi yn yr ystafell neu'n ei ddweud. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth (Cadeirydd cynhadledd).

Petai wedi bod yn yr ystafell, mae yna weithwyr proffesiynol na fyddent wedi dweud pethau yn y ffordd y gwnaethant. Rwy'n credu bod hynny wedi achosi i rieni roi'r ffôn

i lawr a gadael yr ystafell. Rydw i wedi trafod hyn gyda chadeiryddion eraill sydd wedi dweud pan fydd rhywbeth fel hyn yn digwydd, y bydden nhw'n gallu eu cael nhw'n ôl petaen nhw yn yr un lle, a'u cael nhw i ailymgysylltu, ond rydych chi'n eu colli dros y ffôn (Cadeirydd cynhadledd).

Er gwaethaf y ffaith bod mwy o weithwyr proffesiynol wedi cymryd rhan a'r nodweddion cadarnhaol eraill a amlygwyd, roedd llawer o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn credu bod cynadleddau wedi dioddef o ganlyniad i lai o ryngweithio wyneb yn wyneb ag eraill yn yr hyn a allai fod yn amgylcheddau diffwrth iawn, lle'r oedd llai o gyfleoedd i drafod a myfyrto.

Mynegwyd rhywfaint o bryder hefyd, er y gallai cynadleddau fod yn fyrrach, nad oeddent yn ddigon manwl a'u bod, o bosibl, yn cymryd yr hyn a alwyd yn 'llwybrau byr'. Yn ogystal â'r sylwadau ynglŷn â chadeiryddion cynadleddau'n ffonio asiantaethau i gael adborth a chyfleu hyn i rieni yn hytrach na chynnull cynhadledd, crybwyllwyd methiannau i fod yn gwbl sicr pwy oedd yng nghartref y teulu yn ystod cynadleddau, a oedd yn golygu y gallai trafodaethau ddigwydd cael eu clywed gan rywun a amlygwyd yn berygl i'r plentyn. Er mai lleiafrif yn unig a gododd y pryderon hyn, mae'r negeseuon yn achos pryder.

Maen nhw'n gyflymach – nid yw hynny'n beth cadarnhaol i mi, oherwydd bod pethau'n cael eu colli, ac rwy'n credu o safbwynt proffesiynol, nid yw pawb fel fi. Rwy'n mynd i mewn gyda rhestr ac rwy'n gwneud yn siŵr fy mod i wedi gofyn popeth, neu siarad am bopeth, trafod popeth. Rwy'n adnabod y teuluoedd yn holistig, ond rwy'n gwybod nad yw pob gweithiwr proffesiynol fel yna, felly rwy'n siŵr bod rhai yn gadael yr alwad neu'r cysylltiad fideo ac yn meddwl, 'O, a ddylwn i fod wedi gofyn hynny?' Ac efallai mai hwnnw yw'r darn bach o'r jig-so sy'n gwneud gwahaniaeth mawr (Gweithiwr lloches).

Rwy'n credu bod cynadleddau'n parhau i lwyddo i gadw plant yn ddiogel, ond yn fy marn i maen nhw'n llai cadarn na chyn COVID-19 (Gweithiwr cymdeithasol).

Mae cynadleddau'n waeth nawr. [Maen nhw'n ...] llai archwiliol ac yn fwy anodd eu cadeirio, ac felly mae'n fwy anodd dadansoddi risg (Nyrs ysgol).

Dydw i ddim wedi bod i gynhadledd o'r blaen, felly dydw i ddim yn gwybod a ydw i'n iawn, ond roedd yn ymddangos yn amheronol iawn. Darllenodd pobl eu hadroddiadau, gofynnwyd i mi a oedd gen i unrhyw beth i'w ychwanegu a doeddwn i ddim yn gallu hel fy meddyliau at ei gilydd, rhoddodd y cadeirydd grynodedb, dywedodd fod y plant ar gynlluniau ac roedd y cyfan drosodd (Mam).

Roedd ambell weithiwr cymdeithasol yn credu bod y dull mwy penodol hwn yn golygu bod yr egwyddorion a'r fframweithiau sy'n arwain eu harferion yn cael eu peryglu.

Rydyn ni'n defnyddio'r model Cryfhau Teuluoedd, felly, yn sydyn, does gennych chi ddim yr elfen weledol i gynnal ymgysylltiad pobl, ac nid yw pawb yn gallu siarad ar yr un pryd ar y ffôn. Mae wedi golygu bod rhaid i'r cadeirydd reoli'r cyfarfod i raddau mwy o lawer ac mae hynny'n pellhau oddi wrth werth craidd Cryfhau Teuluoedd (Gweithiwr cymdeithasol).

Mynediad haws at wybodaeth

Crybwyllodd yr heddlu, yn arbennig, y manteision a ddeuai yn sgil cyfranogiad rhithwir. Yn ogystal â gallu gweithredu'n syth ar rai pwyntiau a godwyd, roeddent hefyd yn gallu cael at gofnodion yr heddlu a rhoi diweddariad i'r gynhadledd gyfan, neu gadeirydd y gynhadledd yn unig os oedd cyfrinachedd yn bwysig.

Yn flaenorol, mewn llawer o gynadleddau, doeddech chi ddim yn cael bwrdd hyd yn oed, felly roeddech chi ar gadair yn ceisio cydbwysu'r gwaith papur. Doedd gennym ni ddim cysylltiad WiFi. Ond nawr, os oes unrhyw gwestiynau, gallaf ddod o hyd i'r atebion yn y fan a'r lle. Os bydd rhywun yn herio rhywbeth, os bydd aelod o'r teulu'n dweud, 'Dwi ddim yn siŵr am yr euogfarn honno, rwy'n credu eich bod chi wedi ysgrifennu'r dyddiad yn anghywir', iawn, gallaf fynd ato'n syth (yr Heddlu).

Weithiau, roedd gweithwyr cymdeithasol o'r farn ei bod yn ddefnyddiol cael mynediad at ddata gofal cymdeithasol i blant yn ystod cynhadledd. Mewn rhai awdurdodau, roedd y signal WiFi yn wael iawn yn y rhannau o'r adeiladau lle y cynhaliwyd cynadleddau cyn COVID-19, gan olygu y bu'n amhosibl gwirio cofnodion electronig – ond hyd yn oed gyda signal, bu amharodrwydd i weithio ar y cyfrifiadur ar yr un pryd ag eistedd mewn cyfarfod wyneb yn wyneb.

Gallaf wirio manylion a nodiadau a phob math o bethau nad oes modd i chi eu gwneud mewn cynhadledd nodweddiadol. Byddai'n rhaid i chi naill ai ddibynnu ar y ffaith eich bod wedi argraffu popeth y mae arnoch ei angen, neu ddibynnu ar eich cof, ac nid fy un i yw'r gorau, felly mae hynny wedi bod yn fonws go iawn (Gweithiwr cymdeithasol).


Roedd hefyd yn fuddiol i rai allu cyfathrebu â chadeirydd y gynhadledd a chydweithwyr trwy neges destun os oeddent eisiau tynnu sylw at rywbeth a ddywedwyd a oedd naill ai'n anghywir neu a allai roi rhywun mewn perygl hyd yn oed pe byddai'r drafodaeth yn parhau. Daeth hyn yn arbennig o arwyddocaol os oedd rhiant gartref gyda rhywun a allai fod yn berygl i'r teulu pe byddai honiadau penodol yn cael eu mynegi'n agored.

Felly, roedd gen i gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol yr wythnos hon lle'r oedd trais domestig yn ffactor risg arwyddocaol iawn. Fel arfer, rydych chi'n amlinellu'r holl risgiau, ond doeddwn i ddim eisiau i'r un honno gael ei phwysleisio oherwydd y risgiau i'r fam. Felly, roeddwn i'n gallu cyfathrebu â'r rheolwr tîm, nad yw mor gyfarwydd â'r teulu ag yr wyf i, a defnyddiais Skype i'w rhybuddio hi bod hyn yn risg ond ni allem wthio'n rhy bell oherwydd bod y rhieni'n deialu i mewn i'r gynhadledd ac roedd y fam yn yr un ystafell â'r tad heb weithwyr proffesiynol, dim rhwydi diogelwch wrth law. Mewn cynhadledd wyneb yn wyneb, fe allech chi ddefnyddio iaith y corff i synhwyro sut oedd y tad yn ymateb i bethau a gweld a oedd ar fin ffrwydro (Gweithiwr cymdeithasol).

Arferion presennol – yn well neu'n waeth?

Gofynnwyd i'r gweithwyr proffesiynol¹⁰ a ymatebodd i'r arolwg a oedd y ffyrdd newydd o gynnal cynadleddau'n 'well' neu'n 'waeth', at ei gilydd, na'r sefyllfa cyn COVID-19. Roedd bron hanner y rhai a ymatebodd (48%)¹¹ yn credu eu bod yn well, roedd ychydig dros draean (35%) yn credu eu bod yn waeth, ac roedd y 17% a oedd yn weddill yn credu eu bod yr un fath, neu fod y manteision a'r anfanteision yn gytbwys.

Ffigur 3: At ei gilydd, a ydych chi'n credu bod unrhyw ffyrdd newydd o weithredu yn gwneud cynadleddau'n well neu'n waeth na chyn cyfyngiadau COVID-19?



Roedd mwyafrif y rhai a ddywedodd eu bod yn 'well' wedi gwneud hynny oherwydd eu bod yn credu eu bod naill ai'n fwy effeithlon o ran yr amser teithio a arbedwyd, neu fod manteision yn sgil cael cyfranogiad ystod ehangach o weithwyr proffesiynol. Roedd y pryderon allweddol i'r rhai a oedd yn credu bod pethau wedi gwaethygu yn cynnwys anawsterau technolegol, heriau i rieni ymgysylltu, a'r perygl bod pethau'n cael eu colli oherwydd bod llwybrau byr yn cael eu cymryd.

Hyd yn oed pan oedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol, i raddau helaeth, ynglŷn â'r dulliau presennol o gynnal cynadleddau amddiffyn plant, roedd hyn yn aml law yn llaw â galwadau i fabwysiadu model hybrid fel y ffordd a ffefrir i fynd i'r afael â rhai pryderon nad oedd y trefniant presennol yn iawn o reidrwydd i bob rhiant.

¹⁰ Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i'r aelodau o deuluoedd a ymatebodd i'r arolwg hwn gan ei fod yn dibynnu ar gynefindra ag arferion cynadleddau amddiffyn plant cyn mis Mawrth 2020.

¹¹ Ymatebodd 304 o'r 492 o weithwyr proffesiynol i'r cwestiwn hwn.

4. Themâu trawstorri

Cyfrinachedd

Er bod rhai gweithwyr proffesiynol yn sôn ei bod yn haws rhannu a chael at wybodaeth, codwyd cyfrinachedd yn bryder mawr gyda chynadleddau ffôn neu fideo. Nid oedd gweithwyr proffesiynol yn fodlon rhannu gwybodaeth am eu bod yn ansicr pwy arall allai fod mewn ystafell yn gallu clywed yr hyn oedd yn cael ei ddweud. Hyd yn oed pe byddai'r gynhadledd ar fideo, ofnwyd y gallai rhywun allan o'r golwg fod yn gwrando. Roedd cadeiryddion cynhadledd fel arfer yn ei gwneud yn glir na ddylai rhieni adael i unrhyw un fod yno heblaw bod hynny wedi'i gytuno gyda hwy ymlaen llaw. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn mynd i'r afael â'r pryderon, yn enwedig pryderon yr heddlu.

Mae'r cadeiryddion yn parhau ychydig am gyfrinachedd, am ofalu pwy sydd yn yr ystafell gyda chi, y math hwnnw o sgwrs, ond rwyf wedi bod mewn cynadleddau lle rwy'n gwybod bod tramgwyddwr, fel y cyfryw, yn eistedd y pen draw i'r ffôn, ond allwch chi ddim plismona hynny, dyna fel mae hi, ac mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol iawn ... ond mae'n ein gwneud ni'n fwy amharod i roi cymaint o wybodaeth. Rydych yn tueddu i gadw gwybodaeth yn ôl, heb fod eisiau mentro diogelwch yr unigolyn hwnnw ymhellach, felly mae'n anodd ei reoli, a dweud y gwir (yr Heddlu).

Pan fydd rhieni gartref, oni bai bod gweithiwr cymdeithasol neu weithwyr proffesiynol eraill gyda nhw, sy'n beth prin, ni allaf fod yn siŵr mai nhw yw'r unig bobl sy'n gwrando. Mae'n anodd iawn rhannu argyhoeddiadau, a wna i ddim, oherwydd gallai unrhyw un fod yn gwrando. A dweud y gwir, weithiau rwy'n rhannu gwybodaeth am bobl sy'n annymunol, felly pe byddai rhywun arall yn yr ystafell wedi clywed yr wybodaeth honno a bod sgil-ffeithiau'n digwydd, byddem ni'n atebol (yr Heddlu).

Roedd hwn hefyd yn bryder am weithwyr proffesiynol a allai fod yn gweithio o gartref neu mewn lle swyddfa a rannir.

Yn y dechrau, roeddem yn cael ymuno â chynadleddau o gartref. Rwy'n byw ar fy mhen fy hun felly nid oedd cyfrinachedd yn broblem, ond maen nhw wedi rhoi'r gorau i hynny bellach ac mae'n rhaid inni fod yn y swyddfa i'w gwneud. Gall hynny achosi anawsterau, o ran dod o hyd i ystafelloedd; mae'n anodd am nad oes llawer o le yn y ganolfan iechyd i gadw pellter cymdeithasol hefyd, ac rydyn ni'n gorfod gweithio o amgylch hynny o hyd a sicrhau bod digon o leoedd i bobl fynd. Roedd yn haws eu gwneud nhw o gartref, yn fy marn i, ac yn fwy cyfrinachol, am nad oes unrhyw sŵn yn y cefndir. Pan fyddwch yn eu gwneud nhw yn y swyddfa mae ffonau'n canu, a'r holl sŵn yn y swyddfa. Rwy'n credu bod y newid yn ymwneud â materion cyfrinachedd (Nyrs ysgol).

Dywedodd y cadeirydd wrth yr ymwelydd iechyd 'Pwy sydd y tu ôl i chi, a ydych mewn swyddfa sy'n cael ei rhannu?' A dywedodd yr ymwelydd iechyd, 'Mae'n iawn, mae hi'n ymwelydd iechyd hefyd'. Yn amlwg, roedd y cadeirydd yn flin a dywedodd, 'Does dim caniatâd gennym iddi fod yn bresennol; a ewch chi i le preifat os gwelwch

yn dda lle nad oes neb arall yn yr un ystafell â chi?', ac roeddwn i'n meddwl bod hynny'n draed moch braidd (Mam-gu).

O ganlyniad, gall gwybodaeth benodol gael ei hanfon yn gyfrinachol at gadeirydd y gynhadledd a fydd yn rhannu gyda gweithwyr proffesiynol eraill fel sy'n briodol. Derbyniodd un eiriolwr y broses ond roedd yn credu bod rhywbeth eithaf pwysig wedi cael ei golli wedyn.

Efallai bellach y gwnawn ni golli elfennau o farn gweithwyr proffesiynol. Er nad yw'r heddlu'n adnabod y teuluoedd, o'm safbwynt i, a minnau'n arfer bod yn weithiwr cymdeithasol, fe deimlwn bob amser pe byddai rhywun o'r heddlu'n dweud, 'rydyn ni'n poeni oherwydd hyn' neu 'gallai hyn ddigwydd' fod hynny'n eithaf difrifol, mae rhieni fel petaent yn gwrando ar hynny ac yn ymateb iddo (Eiriolwr).

Lleisiwyd pryderon am y ffaith nad oedd gan rieni le priodol i ymuno â'r gynhadledd. Roedd hyn yn bryder yn arbennig i'r rheini mewn llety dros dro neu lety sy'n cael ei rannu, lle'r oedd yn anodd iawn cynnal lefel uchel o gyfrinachedd.

Ni ymunodd un o'n cleifion o gwbl oherwydd ni allai ddod o hyd i unman priodol i'w wneud. Roedd hi'n byw mewn llety a rannir, felly nid oedd yn teimlo y gallai ei wneud yno am na fyddai'n breifat. A dweud y gwir, fe geisiodd ein ffonio ni o safle bws, ond wedyn roedd pobl eraill yn cerdded heibio. Aeth i barc ac roedd hi'n crwydro o gwmpas, yn ceisio gwrando ar y cyfarfod am nad oedd yn teimlo bod unrhyw le y gallai fynd iddo. Y gobaith yw bod hynny'n ddigwyddiad prin. Roedd gennym ddau glaf digartref hefyd yn byw ar y stryd, heb fod yr un yn berchen ar ffôn. Aeth y gweithiwr cymorth yn y lloches i'r digartref â'r fam i'r swyddfa, ond dywedodd na allai fynd â'r fam a'r tad, a bod rhaid iddynt ddewis pwy a aeth (Bydwraig).

Nid ydym yn siŵr a ydy aelodau o'r teulu yn gallu siarad yn agored pan fyddant yn eu hamgylchedd cartref, heb wybod yn iawn pwy arall a all fod yn bresennol yn y cartref adeg y cyfarfod (Gweithiwr cymdeithasol).

Cafwyd pryderon hefyd fod rhai o'r trefniadau ar gyfer cynadleddau, fel defnyddio rhif safonol a threfnu cynadleddau gefn wrth gefn, yn ei gwneud yn bosibl torri cyfrinachedd, fel y nodwyd gan riant yn gynharach.

Pryderon am ymddygiad a cholli ymdeimlad o ddifrifoldeb

Roedd gweithwyr proffesiynol yn pryderu hefyd fod difrifoldeb a ffurfioldeb cynadleddau heb eu cyfleu bob amser i rieni, o ganlyniad i'r fformat 'ar-lein'. Soniodd eraill fod rhieni, yn ystod cynadleddau o bell, yn gallu dewis cadw eu camerâu wedi'u diffodd ac ymgysylltu llai ac, o ganlyniad, efallai na fyddant wedi deall negeseuon y gynhadledd yn ddigon clir.

Er enghraifft, roedd sefyllfaoedd lle byddai rhieni'n ymuno â'r alwad o far ewinedd neu wrth siopa.

Rwyf wedi cael cynadleddau lle'r oedd y rhieni'n cerdded o gwmpas [archfarchnad] yn siopa. Roedd un unigolyn yn eithaf annymunol, a hithau'n sgrechian a gweiddi ar bawb yn y siop. A dyma fi'n meddwl 'dydyn ni'n cyflawni dim yma heblaw codi ein pryderon i gyd yn sylweddol nad ydych chi'n clywed unrhyw beth rydyn ni'n ei ddweud'. Doedd hi

ddim yn sefyllfa dda. Arhosodd tan y diwedd, gan regi ar bawb ac yn y pen draw bu'n ddigywilydd iawn inni (yr Heddlu).

Roedd un tad yn y car, a bu'n rhaid inni ddweud wrtho 'nid yw'n briodol i chi ffonio ar gyfer y gynhadledd wrth ichi yrru car; yn gyntaf, dyw hynny ddim yn ddiogel, gadewch inni fod yn glir am hynny, ac yn ail, cynhadledd yw hon am eich plant ac mae angen i chi roi eich sylw i gyd iddi, er mwyn inni weithio tuag at gynyddu diogelwch, a cheisio cael y sgwrsiau hyn gyda rhieni mewn modd sy'n eu cael i weld nad hynny yw'r ffordd gywir o wneud pethau (Cadeirydd).

Fodd bynnag, nid oedd y pryderon hyn yn ymwneud ag ymddygiad a dealltwriaeth rhieni yn unig. Yn rhannol, priodolwyd y problemau i anawsterau a allai godi o ddefnyddio technoleg a chysylltiadau gwael, a oedd yna'n bychanu difrifoldeb y cyfarfod, ond rhoddwyd y bai hefyd ar absenoldeb protocolau am brosesau, ymddygiadau, cyfraniadau, ac amseriadau.

Yn aml, nid oes protocol ar waith ac felly mae pawb yn siarad ar draws pawb arall ac nid yw'r rhieni'n gallu ymdopi â hyn. Maent yn colli eu sylw'n hawdd ac mae'n anodd iddynt ganolbwyntio (Eiriolwr – arolwg).

Roedd anesmwythder a hyd yn oed chwithigrwydd am y ffaith bod ymddygiad gweithwyr proffesiynol yn ystod cynadleddau fideo neu ffôn yn arwain at golli 'gwedduster' neu 'broffesiynoldeb'. Mewn rhai achosion, roedd gweithwyr proffesiynol wedi diffodd eu camerâu i gymryd galwadau, wedi symud i fwrdd o'u desgiau i ateb y drws, a phlant ac anifeiliaid anwes wedi torri ar eu traws, gan fentro peidio â chyfleu'n effeithiol ddifrifoldeb y sefyllfa i rieni.

Bu'n rhaid i rai cadeiryddion cynhadledd atgoffa gweithwyr proffesiynol eu bod mewn cyfarfod ffurfiol o hyd, er eu bod yn eistedd efallai wrth fwrdd y gegin neu ar sofa, ac y dylent ymddwyn yn briodol i roi'r parch priodol i'r cyfarfod a'r teulu. Cafwyd llawer o enghreifftiau o weithwyr proffesiynol yn bwyta yn ystod y gynhadledd, yn diffodd eu camerâu i gymryd galwadau neu ateb y drws.

Y pethau cyffredin oedd bwyta eu cinio yn ystod cyfarfod neu wrth i bobl eraill siarad, codi a cherdded o olwg y camera i fynd i nôl rhywbeth neu wneud rhywbeth. Fydech chi ddim yn gwneud y pethau hynny petaech yn mynychu cynhadledd yn gorfforol, fydech chi ddim yn eistedd yno a thynnu eich brechdanau allan i ginio (Cadeirydd cynhadledd).

Rwyf wedi cael pobl yn ateb galwadau yn ystod cynadleddau ac anghofio troi'r mudydd ymlaen - mae peidio â mudo yn ychwanegu at yr amarch, ni ddylai hynny ddigwydd o gwbl (cadeirydd cynhadledd).

Ac nid oedd cadeiryddion cynhadledd eu hunain yn dianc rhag beirniadaeth ychwaith.

Allwn i ddim credu fy llygaid. Dyma hi'n codi, a hithau'n amlwg yn eistedd yn ei lolfa gyda'i gliniadur, a mynd draw at y ffenestr, a chodi ei thop a ... wn i ddim sut mae disgrifio'r peth ... siglo ei hun yn yr awel a dyma fi'n meddwl, o Jiw! Ac yna dyma hi'n gosod ei chrys yn ôl yn iawn ac eistedd eto fel petai hynny heb ddigwydd. Wn i ddim sawl un a welodd hynny ... Ond mae pobl wedi cael cathod yn rhedeg heibio, cŵn yn

rhedeg heibio, ffonau'n canu, a dim ond y gweithwyr proffesiynol yw hynny, dim y teuluoedd (Asiantaeth cyfwelai dienw er mwyn peidio â'i hadnabod).

Cyfaddefodd ychydig o'r rheini y cyfwelwyd â hwy eu bod wedi manteisio ar fod ar y ffôn neu ddiffodd y fideo er mwyn iddynt fwrw ymlaen â thasgau gwaith.

Mae pwysau aruthrol ar weithwyr cymdeithasol, ac mae'r ffaith ein bod yn cynnal cyfarfodydd dros Skype bellach, er nad yw'n arfer gorau i'r teulu yn fy marn i, wedi fy ngwneud i ar gael mwy. Ond mae hefyd yn ei gwneud yn anoddach canolbwyntio oherwydd gall fod dogfennau ar agor gennyf ac rwy'n gallu gwneud pethau wrth wrando ar weithwyr proffesiynol eraill (Gweithiwr cymdeithasol).

Rwy'n gallu cael yr e-bost ar waith ac ymateb i bethau brys os oes angen tra bod y gynhadledd yn digwydd (Gweithiwr cymdeithasol).

I rieni ac aelodau o'r teulu, teimlwyd bod ymyriadau felly yn cyfleu diffyg parch i'w sefyllfaoedd hwy.

Fy mhrif gŵyn oedd yr ymyriadau. Mae hon yn foment ddifrifol imi a fy mhlentyn. Roedd y fideo'n cadw rhewi, ac ni allwn ddeall beth oedd pobl yn ei ddweud hanner yr amser, a hynny'n rhannol am fod cŵn yn cyfarth yn y cefndir a phethau felly. Rwy'n deall ei bod yn anodd i bobl weithio gartref, a bydd anifeiliaid anwes yn cyfarth felly, ond rwy'n credu y dylen nhw wisgo clustffonau neu rywbeth (Mam).

Roedd hi fel ffair. Byddai pobl yn diflannu o hyd i ateb ffonau, bu'n rhaid i un ddweud wrth blentyn am fynd i ystafell arall ac ar un adeg aeth rhywun i ateb y drws. Nid oedd yn teimlo mai dyma sut oedd pethau i fod (Mam-gu).

Cymerodd oesoedd inni gysylltu ac roedd fel petaem yn ymuno yng nghanol sgwrs. Dywedodd y cadeirydd nad oedden nhw wedi dechrau, ond dyna sut oedd yn teimlo. A byddai ffonau'n canu, pobl yn diflannu a dychwelyd, clychau drws yn canu. Pe byddai'n digwydd wyneb yn wyneb, fyddai'r pethau hyn ddim yn digwydd ac rwy'n credu y byddai pobl yn ymddiheuro am unrhyw dorri ar draws, ond ddywedodd neb ddim (Mam).

Diogelwch

Yn y pen eithaf, cododd ymatebwyr a chyfweleion bryderon y gallai'r ffyrdd newydd o weithio fod yn anniogel, mewn rhai amgylchiadau.

[Er] rwy'n credu bod y model wedi gwella wrth i bobl ymgyswrtio â Teams, mae'n creu anfantais o hyd nes y daw'n anniogel (Ymwelydd iechyd).

Daeth hyn i'r amlwg mewn nifer o ffyrdd. Lle'r oedd cam-drin domestig yn broblem, roedd pryderon y gallai rhywun fod yn yr ystafell a allai beryglu rhiant o ganlyniad i'r hyn y byddai'n ei glywed:

O'm safbwynt i, mae'n siŵr mai cam-drin domestig yw un o'r agweddau mwyaf cyffredin a grybwyllwyd sy'n arwain at rywun yn eistedd mewn cynhadledd amddiffyn

plant ac mae'n rhaid ichi fod mor sensitif ac mor ofalus am yr hyn a drafodir o flaen pwy, oherwydd y peryglon (Ymwelydd iechyd).

...mewn un gynhadledd roeddem i gyd yn eithaf siŵr bod y tramgwyddwr yno, ond ei bod hi'n dweud fel arall. Roedd gennym ddigon o reswm dros gredu ei fod yno, a hynny'n ein rhoi i gyd mewn sefyllfa anodd iawn. Gallai unrhyw beth fod yn bosibl pan nad oes dim mwy gennych na llais ym mhen draw'r lein, a llais unigolyn sy'n agored iawn i niwed. Diben cynhadledd amddiffyn plant yw galluogi pobl i siarad yn agored am yr hyn sy'n eu poeni, ond os na wyddoch chi pwy sy'n gwranddo, daw hynny'n anodd dros ben. Cafodd hyn ei drin cystal ag yr oedd modd, gyda negeseuon yn cael eu hanfon rhwng pobl yn y gynhadledd i roi gwybod i eraill fod pryder y gallai rhywun arall fod yno (Bydwraig).

Roedd problemau hefyd yn berthynol i bresenoldeb plant yn y cartref tra'r oedd cynadleddau'n cael eu cynnal. Fel y nodwyd uchod, gall hyn olygu eu bod mewn sefyllfa well i gyfranogi am ran o'r gynhadledd, ond golyga hefyd y gallent fod yn agored i wybodaeth na ddylent ei chlywed. Er bod cadeiryddion cynhadledd wedi dweud eu bod wedi egluro pwysigrwydd peidio â chael plant yn bresennol (heblaw eu bod yn cymryd rhan), mae'n anodd monitro hyn. Roedd hefyd yn bosibl i bethau newid yn ystod y gynhadledd.

Onid fe gefais un ychydig yn ôl lle gadawodd y tad i gasglu'r plentyn o'r ysgol, ac yn ddiarwybod i ni roedden nhw wedi dychwelyd ac yn sydyn roedd y plentyn wedi cynhyrfu a mynd i'w ystafell. Ar ôl inni holi beth oedd yn digwydd, dywedodd y fam fod y plentyn wedi clywed. Ond wyddon ni ddim ei fod yno, felly, yn amlwg, doedd hynny ddim yn dda. Ond roedd y rheolau sylfaenol wedi'u trafod yn y gwaith paratoi ac nid oedd yntau yno, hyd ei gasglu o'r ysgol, felly roedd hynny'n anffodus ac fe siaradais â'r rhieni wedyn a'u hatgoffa bod angen inni wybod os oes pethau'n mynd i newid yn yr ystafell. Un peth rwyf wedi myfyrio yn ei gylch yw fy mod i'n gwybod ei fod wedi mynd i'w gasglu o'r ysgol; sylweddolais i ddim fod yr ysgol mor agos, ond gallwn fod wedi dweud 'Ble fydd e? A ydych chi'n dod yn ôl? Gwnewch yn siŵr na ddaw e i'r ystafell...' (Cadeirydd cynhadledd).

Gallai hefyd olygu bod plant o gwmpas yn ystod sgysiau dirdynol iawn neu yn syth ar ôl sgysiau felly, heb fod hynny'n digwydd efallai mewn cynhadledd wyneb yn wyneb.

Rwy'n teimlo nad yw fy sgiliau'n cael eu defnyddio, heb allu cwrdd â'r teulu wyneb yn wyneb. Bu'n amhosibl defnyddio fy mhrofiad i ddarllen iaith y corff. Rwyf wedi cael ofn weithiau, er enghraifft, pan drodd aelod o deulu ym mhen arall yr alwad fideo yn gythryblus ac ymosodol iawn wrth ddal y plentyn. Mae'n llawer anoddach ymdrin ag aelod heriol o deulu dros alwad fideo yn hytrach nag yn bersonol, lle gallwn gymryd egwyl er mwyn i berson adael y cyfarfod (Gweithiwr cymdeithasol).

Ddoe roedd mam grac iawn yn sgrechian i lawr y ffôn ataf mewn cynhadledd, ond cefais fy atgoffa mor galed yw hyn i gyd. Roeddwn yn ymwybodol iawn ei bod hi gartref ar ei phen ei hun gyda baban ifanc. Roeddwn i'n ceisio tawelu ei dicter, ond ni allai fy nghlywed dros y gweiddi. Bu'n rhaid inni gadw siarad oherwydd ni fyddwn wedi teimlo'n gyffyrddus yn ei gadael hi mor flin â hynny, a hithau gartref gyda baban ifanc. Ond y gwir oedd bod gennyf weithwyr proffesiynol eraill yn disgwyl mwy ohonof nag y gallwn ei gynnig ar y pryd (cadeirydd Cynhadledd).

Os yw plentyn wedi datgelu rhywbeth i'r eiriolwr, mae rhieni'n gwylltio ac yn dweud pethau fel 'Fe fydd e'n cael pryd o dafod ar ôl mynd adref am raffu celwyddau'. Mewn cynhadledd go iawn, mae gennyh y lle i dawelu'r rhieni hynny a dweud, "dewch nawr, mae wedi dweud hynny yn y cyd-destun yma", wedyn byddai ganddynt amser i fynd adref, ac efallai tawelu ychydig, oherwydd mae'n amlwg yn sefyllfa emosiynol iawn. Ond rwy'n poeni yn awr fod rhieni'n eistedd gyda'u plant mewn ystafelloedd eraill heb fod unrhyw gyfnod iddynt dawelu eu dicter, a hwythau'n gallu colli eu tymer ar unwaith. Chlywais i ddim am hyn yn digwydd, ond rwy'n ei gadw mewn cof drwy'r amser. Rwy'n ofalus iawn wrth ddarllen geiriau person ifanc, os oes unrhyw beth rwy'n teimlo a allai sbarduno rhiant, rwyf wedi ffonio'r gweithiwr cymdeithasol a dweud 'Bydd angen ichi siarad â nhw wedyn a sicrhau bod popeth yn iawn'(cadeirydd Cynhadledd).

Hwyrach fod y materion hyn yn waeth am nad oedd trefniadau gofal plant arferol bob amser ar gael ar gyfer rhai o'r cyfnodau dan sylw yn yr astudiaeth hon.

Bu'n rhaid iddynt gael eu plant yn bresennol am gyfarfodydd oherwydd nad oedd gofal plant ar gael oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol ac aelwydydd yn methu cymysgu (Ymwelydd iechyd – ymateb i arolwg).

Pan oedd yr ysgolion ar gau, a gofal plant yn amhosibl, byddai'r plant yn aml i fyny'r grisiau; nid yw hynny'n dda, yn enwedig os bydd rhieni'n cynhyrfu a/neu'n gofidio. Rwyf wedi bod yn teimlo dros y teuluoedd am fod y ffordd hon o weithio mor amhersonol a cham-gyfathrebu'n llawer mwy tebygol (Gweithiwr cymdeithasol).

Gan gofio hyn, gofynnodd yr arolwg gwestiwn penodol i gadeiryddion a gweithwyr cymdeithasol am argaeledd gofal plant. Dim ond un rhan o dair o gadeiryddion cynhadledd a ymatebodd i'r arolwg a oedd yn ymwybodol o ddarpariaeth, neu hyd yn oed trafodaeth, mewn perthynas â gofal plant yn ystod cynadleddau. Lle darparwyd gofal plant, roedd fel arfer yn ymwneud â'r gweithiwr cymdeithasol yn siarad â rhieni i holi a fyddai teulu neu ffrindiau'n gallu gofalu am y plant. Dim ond mewn ambell achos yr oedd yr awdurdod lleol wedi darparu unrhyw fath o ofal. Yn ddi-ddorol, er bod un rhan o dair o gadeiryddion cynhadledd o'r farn mai gweithwyr cymdeithasol sy'n gyfrifol am hyn, dim ond 7% o weithwyr cymdeithasol oedd yn ymwybodol o drafodaethau neu ddarpariaeth felly.

Pan oedd teuluoedd gartref gyda'i gilydd yn bennaf, efallai bod gweithwyr proffesiynol yn teimlo nad oedd gofal plant yn gymaint o broblem, ond mae'n werth nodi'r goblygiadau ar gyfer diogelwch plant a amlygir uchod.

5. Effaith COVID-19 ar gynllunio cyn ac ar ôl cynhadledd

Cyn cynhadledd: paratoi

Mae llwyddiant cynhadledd yn debygol o gael ei lywio, yn rhannol, gan yr hyn sy'n digwydd o flaen llaw. Mae'r ffordd y mae cadeiryddion yn ymgysylltu â theuluoedd cyn cynnal y gynhadledd, ac yn cylchredeg adroddiadau ar gyfer y gynhadledd, yn ddwy elfen bwysig o hyn.

Cyswllt cadeirydd y gynhadledd â rhieni

Mae'n arfer da sydd wedi'i hen sefydlu i gadeirydd y gynhadledd gwrdd ag aelodau'r teulu cyn y gynhadledd i sicrhau eu bod yn deall yr hyn a fydd yn digwydd a sut gallant gyfrannu at y cyfarfod. Yn ôl yr ymatebion yn arolwg y gweithwyr proffesiynol, roedd hyn yn digwydd o hyd gan amlaf yn ystod y pandemig. Dywedodd 90% o gadeiryddion cynhadledd a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn cwrdd â theuluoedd cyn cynadleddau i sicrhau bod y teulu'n deall diben a phroses y gynhadledd, a dywedodd 96% fod trefniadau ar waith i gytuno ar bresenoldeb a chyfranogiad aelodau teulu, gan gynnwys gwaharddiadau lle bo angen. Fodd bynnag, nid oedd hanner y 24 o rieni a atebodd i'r arolwg wedi cael y cyfle i siarad ag unrhyw un cyn y gynhadledd, nac ychwaith 6 o'r 14 o rieni y cyfwelwyd â hwy.

Nid wyf wedi siarad erioed â chadeirydd, dydyn nhw ddim ar gael i siarad, er bod yr holl waith papur yn dweud eich bod yn cael cyfle i siarad â'r cadeirydd cyn y cyfarfod, ches i ddim y cyfle hwnnw erioed (Mam).

Ni helpodd neb imi baratoi at y gynhadledd nac egluro pam oedd yn digwydd. Ni siaradodd y cadeirydd â mi er fy mod i wedi gofyn am hynny. Cawsom ein trin fel petaem ni ddim yn bodoli (Mam - ymateb i'r arolwg).

Lle cysylltodd cadeiryddion â theuluoedd cyn y gynhadledd, roedd amseru'r cysylltiad hwn yn amrywio. Roedd rhai cadeiryddion yn cysylltu â theuluoedd ychydig ddiwrnodau cyn y gynhadledd i amlinellu beth fyddai'n digwydd a sicrhau eu bod yn gwybod sut oedd cael at y gynhadledd. Gallai hyn olygu helpu teuluoedd i lawrlwytho unrhyw ap perthnasol neu sicrhau bod ganddynt y rhif ffôn cywir. Byddai cysylltiadau eraill yn digwydd yn syth cyn y gynhadledd. Felly, yn ogystal â thrafod yr achos, gallent hefyd brofi bod y cyswllt fideo/ffôn yn gweithio a dod ag eraill i mewn ar yr adeg briodol. Fodd bynnag, roedd hyn hefyd yn golygu nad oedd fawr o amser i gywiro unrhyw broblemau a godai.

Cefais wybod y byddem yn cael chwarter awr gyda hi cyn y gynhadledd ac y byddai'n ffonio am ddeg o'r gloch. Fe ffoniodd yn hwyr a phan edrychais ar hyd yr alwad ar fy ffôn ar ôl inni orffen, roedd wedi para wyth munud. Roeddem wedi trafod beth a fyddai'n digwydd yn y gynhadledd yn unig, y byddai'n cael pawb i gyflwyno ei hun ac y byddai pawb yn cael ei dro i siarad ac ati, ond roeddwn wedi cael yr argraff mai diben yr amser gyda hi oedd cyflwyno ein hochr ni o'r sefyllfa ond, na, dim felly ... prin y cefais amser i siarad, a hithau'n brysio drwy bopeth roedd hi am ei ddweud wrthyf am beth fyddai'n digwydd (Mam).

Bu cadeiryddion cynhadledd hefyd yn ymdrin â'r cysylltiadau hyn mewn gwahanol ffyrdd. Soniodd un cyfwelai ei bod wedi gwneud hyn mewn dau gam am ei bod o'r farn fod angen

cymorth ar y rhieni dan sylw uwchlaw'r hyn a ddarperir fel arfer. Ychydig ddiwrnodau cyn y gynhadledd, anfonodd neges destun a ymddangosodd yn fwriadol fel un a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur. Bu'n atgoffa'r rhieni am gyfrinachedd: er bod hawl ganddynt gael rhywun i'w cefnogi, ni ddylai fod oedolion eraill yn bresennol a allai glywed yr hyn a ddywedir, a dylid dweud wrth gadeirydd y gynhadledd pe byddai plant yn bresennol. Yn y neges destun, gofynnwyd hefyd iddynt ymateb mewn e-bost os hoffent ymuno dros fideo. Wedyn, ar fore'r gynhadledd, a fyddai bob amser yn digwydd yn y prynhawn i'r cadeirydd cynhadledd hwn, byddai'n eu ffonio.

Rwy'n cyflwyno fy hun yn union fel y byddwn petawn wyneb yn wyneb, ond yna mae'n rhaid ichi wneud ychydig mwy o gymhennu. Rwy'n holi sut maent yn cymryd rhan ac a ydyn nhw'n gyffyrddus â hynny, yn holi a allwn ei gwneud yn well o gwbl iddynt.... Rwy'n dweud hefyd y dylent geisio cadw'n ddigyffro, fy mod i'n deall ei bod yn bwnc angerddol dan sylw yn y sgwrs, sef eich plant chi, felly os oes angen ichi adael, gadewch os ydych yn cael trafferth. Ond hefyd rwy'n egluro os byddan nhw'n gadael yr ystafell, ac mae rhieni'n gwneud hynny'n aml, ni allaf fynd gyda nhw a'u cefnogi na gweld eu bod yn iawn i ddychwelyd. Felly er fy mod i'n deall, os na fyddan nhw'n dychwelyd gallai asiantaethau eraill weld rhieni wedyn o safbwynt negyddol, a gallai hynny ddylanwadu ar eu penderfyniad (Cadeirydd).

Roedd cadeiryddion cynhadledd a gweithwyr proffesiynol eraill y cyfwelwyd â hwy yn rhesymol o hyderus fod y rhan gynnar hon o'r broses yn gweithio cystal ag y gallai o ystyried yr amgylchiadau ond, yn ogystal â'r feirniadaeth a fynegwyd gan rai rhieni a nodwyd uchod, roedd pryderon ei bod yn anoddach magu perthynas mewn cynhadledd ffôn neu fideo.

Wyneb yn wyneb, gall fy mab [tad plentyn sy'n destun y cynllun amddiffyn plant] i siarad â chadeirydd y gynhadledd ac mae'n llawer gwell iddo gael sgwrs wyneb yn wyneb. Mae hi'n dda iawn yn ei ffordd o siarad ag ef ac mae'n sicrhau ei fod yn deall popeth. Nid yw fel arfer yn gwneud yn dda iawn pan fydd pobl yn siarad, ond mae'r ffordd y mae hi'n cyfleu pethau iddo yn dda iawn. Gyda galwad fideo, mae'r teimlad hwnnw fod pethau'n breifat fel petai'n lleihau, ond ni wnaeth e ymgysylltu cystal â hi o gwbl, a oedd yn siomedig. Dim ond cytuno wnaeth ef rywsut, heb ymhelaethu ar ddim byd (Mam-gu).

Adroddiadau cynhadledd

Rhaid i weithwyr cymdeithasol lunio adroddiad ar sail eu hasesiadau a'u dadansoddiad cyn y gynhadledd amddiffyn plant. Caiff hwn ei rannu gyda rhieni ac, os yw'n briodol, gyda phlant hŷn, a hynny mewn digon o bryd cyn y gynhadledd er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw hepgoriadau neu gamgymeriadau ac, os oes angen, codi cwestiynau. Dylai'r rhieni hefyd gael adroddiadau ysgrifenedig gan y gweithwyr proffesiynol perthnasol sydd wedi cyfranogi yn yr ymchwiliad adran 47 a arweiniodd at alw'r gynhadledd, neu sydd â gwybodaeth berthnasol am y plentyn a/neu aelodau'r teulu, y dylid ei rhannu gyda rhieni.


Rhannu adroddiadau gyda rhieni

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cadeiryddion cynhadledd (61%) a gweithwyr cymdeithasol (86%) a ymatebodd i'r arolwg fod rhieni'n cael yr adroddiad o leiaf deuddydd cyn y gynhadledd, er bod dros un rhan o dair o gadeiryddion a chyfran fechan o weithwyr cymdeithasol yn sôn na chyrhaeddodd yr adroddiadau hyn gyda'r rhieni hyd nes y diwrnod cyn y gynhadledd. Fodd

bynag, nid oedd dwy ran o dair o'r rhieni a ymatebodd i'r arolwg wedi cael adroddiadau gweithwyr proffesiynol cyn y gynhadledd.

Soniodd rhieni a chadeiryddion cynhadledd a gweithwyr cymdeithasol fod adroddiadau, gan amlaf, wedi'u hanfon mewn e-bost neu eu dosbarthu â llaw (gweler Ffigur 4).

Ffigur 4: Sut rhannwyd adroddiadau ymlaen llaw gyda rhieni? (Cadeiryddion cynhadledd a gweithwyr cymdeithasol)



O'r cyfweiliadau, roedd y gweithwyr cymdeithasol unigol fel petaent yn gyfrifol am benderfynu sut byddai adroddiadau'n cyrraedd rhieni. Byddai rhai'n dosbarthu'r adroddiad â llaw ac yn ei drafod gyda hwy yn y fan a'r lle, neu'n ddiweddarach dros y ffôn. Os nad oedd y gweithiwr cymdeithasol yn gwneud ymweliadau cartref o hyd, efallai byddai'r adroddiad yn cael ei ddosbarthu gan gydweithiwr neu drwy'r post a'i ddilyn â galwad ffôn. Mewn nifer fechan o achosion, roedd gweithwyr cymdeithasol wedi darllen adroddiadau i deuluoedd dros y ffôn.

Dim ond ychydig o'r rhieni yn ymateb i'r arolwg a ddywedodd eu bod wedi cael y cyfle i drafod yr adroddiad gyda gweithiwr cymdeithasol cyn y gynhadledd.

Codwyd pryderon gan aelodau teulu ac eiriolwyr am allu rhieni i gael at adroddiadau, eu darllen a'u deall, yn enwedig os oeddent yn gallu darllen dogfennau electronig ar ffôn symudol yn unig a/neu os nad oedd ganddynt argraffydd:

Mae un fam yn cael pob math o e-bost cymhleth, maith ac mae'n cael trafferth yn deall yr adroddiadau a chael atynt. Nid oes ganddi argraffydd, felly mae'n eu darllen oddi ar sgrin. Wel, rwy'n siŵr eich bod yn gwybod mor hir yw'r dogfennau hynny, allwch chi ddim gwneud hynny mewn unrhyw fodd ystyrlon ar sgrin ffôn ... Yn ffodus, mae hi'n anfon pethau ymlaen ataf fi, a ninnau'n gwneud fersiwn hawdd ei darllen (Eiriolwr).

Dydw i ddim yn credu ei bod yn dderbyniol anfon adroddiadau at bobl dros e-bost. Efallai y byddant yn darllen yr e-bost hwnnw dros sgrin fach o bedair neu ddwy fodfedd ar ffôn, a hwythau'n defnyddio hwnnw hefyd i ymuno â chynhadledd - a ydy hynny'n deg? Dim yn fy marn i. Rwy'n credu y dylai pobl gael copi papur y gallant

wneud nodiadau arno. Petawn i yn eu hesgidiau hwy, byddwn yn mynd drwy'r adroddiad a phetai gennyf unrhyw beth i anghytuno yn ei gylch, byddwn yn rhoi nodiadau ar yr adroddiadau wrth inni eu trafod, er mwyn imi allu eu codi (yr Heddlu).

Yr hyn y maen nhw'n tueddu i'w wneud yw anfon popeth dros e-bost, yn llythrennol y noson gynt ... mae gennyf un ddogfen mae fy merch wedi'i hanfon ymlaen ataf, a honno'n 120 tudalen o hyd, felly does dim gobaith gan neb ddarllen nac anghytuno ag unrhyw beth na gofyn iddynt ddehongli beth maen nhw'n ei olygu wrth hynny, na dim (Mam-gu).

Dim ond un gweithiwr proffesiynol a gyfeiriodd o gwbl at ohirio cynhadledd am nad oedd adroddiad wedi cyrraedd rhiant, er bod dwy ran o dair o'r rhieni a gwblhaodd yr arolwg yn dweud na chawsant yr adroddiad.

Rhannu adroddiadau gyda gweithwyr proffesiynol

O dan amodau cyn COVID-19, nododd cyfweleion y bu'n arfer cyffredin i weithwyr proffesiynol ddarllen adroddiadau ei gilydd yn syth cyn y gynhadledd. Er bod tuag un rhan o dair o gadeiryddion cynhadledd ac un o bob chwe gweithiwr cymdeithasol yn dweud bod hyn bellach yn digwydd y diwrnod cyn y gynhadledd, cytunodd y rhan fwyaf fod adroddiadau'n cael eu rhannu rhwng asiantaethau ddeuddydd o leiaf cyn hadledd.¹²

Roedd cadeiryddion cynhadledd yn credu bod hyn yn cyfrannu at y ffaith bod gweithwyr proffesiynol wedi'u paratoi'n well ac awgrymwyd hefyd fod ansawdd yr adroddiadau wedi gwella.

Adroddiadau byrrach, mwy cryno. Mae gwybodaeth sy'n cael ei rhannu gan weithwyr proffesiynol fel petai'n fwy seiliedig ar dystiolaeth ac yn llai seiliedig ar farn (gweithiwr cymdeithasol).

Mae'n ymddangos bod mwy o amser wedi'i roi i ysgrifennu adroddiadau cliriach gyda mwy o ffocws – mae llai o dybiaethau a mwy o ffeithiau (cadeirydd cynhadledd).

Roedd swyddogion yr heddlu mewn sefyllfa wahanol oherwydd natur y deunydd y gallent fod yn ei rannu. Cyn COVID 19, os oedd adroddiad heddlu yn cynnwys gwybodaeth am drydydd parti, byddai swyddog yn ei rannu gyda gweithwyr proffesiynol eraill ar ddiwrnod y gynhadledd ac yna'n casglu unrhyw gopiâu papur a ddsbarthwyd. Byddai'r swyddog hefyd yn ei rannu gyda'r rhieni wyneb yn wyneb. Mewn cynhadledd rithwir, gallai'r heddlu rannu'r wybodaeth hon gyda chadeirydd y gynhadledd yn unig er mwyn cadw rheolaeth ar ddsbarthu data personol, sensitif. Roedd hyn fel petai'n egluro pam roedd nifer o weithwyr cymdeithasol yn cyfeirio at gyfraniad minimol neu ysgafn gan yr heddlu:

Roedd gennyf achos mewn cynhadledd yr wythnos diwethaf. Mae'r fam yn cael trafferth yn deall y risgiau y mae ei chariad yn eu cyflwyno iddi hi a'r plentyn, ac rwy'n credu y byddai cael ei gorfodi i eistedd mewn ystafell gydag un o swyddogion yr heddlu wedi cael gwahanol effaith arni efallai. Weithiau mae angen inni weld pethau

¹² Nid oedd ymatebwyr yn cyfeirio at yr union un awdurdodau lleol, a fydd yn cyfrif am ychydig o'r anghysondeb o leiaf.

mewn du a gwyn, ac mae cael eich cymryd i ystafell gyda swyddog yr heddlu yn beth eithaf dramatig i ddigwydd (Gweithiwr cymdeithasol).

Ar ôl cynhadledd: cynlluniau a phenderfyniadau amddiffyn plant


Dylai cynllun amddiffyn plant nodi sut y gellir cadw plentyn yn ddiogel a pha gymorth sydd ei angen ar y teulu. Dylai'r cynllun hefyd nodi'r gwasanaethau i'w darparu, a phwy fydd yn eu darparu, yn ogystal â chanlyniadau clir i'r plentyn a disgwyliadau i'r rhieni, gyda threfniadau ar gyfer adolygu. Llunnir cynlluniau yn ystod cynadleddau, weithiau mewn modd sy'n gysylltiedig ag ymagwedd yr awdurdod at waith cymdeithasol, fel rhaglenni Arwyddion Diogelwch neu Gryfhau Teuluoedd.¹³

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, peidiodd llawer o asiantaethau â gweithredu, a phan wnaethant ailagor, yn aml dim ond cymorth ar-lein a oedd ar gael ganddynt. Adeg y cyfweiliadau (mis Medi 2020) nid oedd llawer ohonynt yn gweithredu o hyd ar lefelau cyn COVID-19 (Baginsky a Manthorpe 2020b). Bu'n anodd datblygu cynlluniau a'u symud yn eu blaenau, yn enwedig lle'r oedd gofyn cael at wasanaethau cyffuriau ac alcohol a/neu raglenni trais domestig. Yn ogystal ag oediadau a ddigwyddodd pan fu cyfnod clo llawn ar waith, roedd pryderon am ansawdd yr hyn y gellid ei gyflawni pan nad oedd asiantaethau'n gweld eu cleientiaid wyneb yn wyneb. Soniodd gweithwyr cymdeithasol mor dda oedd rhai rhieni'n ymateb i gymorth a hyfforddiant ar-lein, ond nad oedd yn gweithio cystal i eraill. Yn aml, dim ond yn Saesneg oedd y cymorth a'r hyfforddiant, ac roedd felly'n anhygyrch i rai rhieni.

Roedd tair rhan o bump (61%) o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn credu bod yr amodau a osodwyd o ganlyniad i COVID-19 wedi effeithio'n negyddol ar weithredu cynlluniau amddiffyn plant. Roedd cyfran uwch o gadeiryddion cynhadledd (84%) na grwpiau proffesiynol eraill yn credu bod hyn yn digwydd; nid yw hynny'n syndod oherwydd byddent yn adolygu nifer fwy o achosion nag eraill. Er enghraifft, ni fyddai gan weithwyr cymdeithasol ac athrawon wybodaeth heblaw am blant yn eu gofal, ac nid yw'r heddlu na nyrsys ysgol fel arfer yn mynychu cynadleddau adolygu.

¹³ Dull o wneud gwaith diogelu plant yw Arwyddion Diogelwch, sy'n seiliedig ar gryfderau ac wedi'i drefnu gan ddiogelwch, gan adeiladu ar ymchwiliad o risg gan gynnwys cryfderau ac arwyddion diogelwch i lunio barn gyffredinol am ddiogelwch gan ddefnyddio graddfa ddiogelwch. Dull yw Cryfhau Teuluoedd a gynlluniwyd i gynyddu cryfderau teulu, cefnogi datblygiad plant, a lleihau tebygolrwydd cam-drin ac esgeuluso plant. Mae'n seiliedig ar gynnwys teuluoedd, rhaglenni, a chymunedau wrth ddatblygu ffactorau amddiffynnol.

Ffigur 5: Yn eich barn chi, a effeithiwyd mewn unrhyw ffordd ar gynlluniau amddiffyn plant yn ystod cyfnod COVID-19?



Roedd un o bob pum cadeirydd cynhadledd yn credu y bu sefyllfaoedd lle cafwyd gwybodaeth annigonol i benderfynu mewn adolygiad ar ddyfodol cynllun, hynny yw a oedd yr amodau a'r gofynion wedi'u bodloni er mwyn iddo ddod i ben, neu a oedd angen ei gadw ar waith.

Dywedodd dwy ran o dair o rieni a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi cael copi o'r cynllun ar ôl y gynhadledd, a bod cyfran debyg wedi cael gwasanaethau yn berthynol i'r cynllun hwnnw.

Roedd cadeiryddion cynhadledd hefyd yn ymwybodol iawn fod gweithwyr cymdeithasol wedi tueddu i gael llai o gysylltiad wyneb yn wyneb â theuluoedd yn ystod y cyfnod hwn ac, mewn rhai achosion, eu bod yn gwneud ymweliadau rhithwir o hyd. Amharwyd o ddifrif ar eu gallu i asesu newid a monitro'r amodau cartref yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ond nid oedd y rhan fwyaf o gadeiryddion cynhadledd yn credu ei bod wedi dychwelyd i lefel 'normal'.

Cawsom gyfarfod Zoom gyda chwmselydd perthynas. Roedd gweld ei wyneb yn ein helpu i ymddiried ynddo ac roedd ei wasanaeth yn ddefnyddiol iawn (Mam).

Yr unig beth a gawsom oedd ymweliadau stepen drws a galwadau fideo gyda Gweithiwr Ymyriad Teuluol. Mae COVID wedi effeithio'n ddifrifol ar y cysylltiad gan weithwyr proffesiynol â'r plant, ac wedi cael effaith aruthrol ar fagu unrhyw berthynas ystyrlon. Yn gyffredinol, bu'r effaith yn negyddol i'n teulu ni yn hytrach na defnyddiol (Mam – yn yr arolwg).

Y rheswm dros gynnwys fy mhlant i yn y lle cyntaf oedd perthynas yr oeddwn ynddi a beth roedd e wedi'i wneud yn y gorffennol, a hynny'n bennaf pan oedd dan 18. Fe wnaethon nhw roi'r plant ar gynlluniau am eu bod yn dweud eu bod mewn perygl uniongyrchol. Nid oedd e'n byw gyda fi ac roeddem yn cadw at alwadau fideo yn unig. Ni chefais wedyn unrhyw ryngweithio â'r gweithiwr cymdeithasol, ddaeth hi ddim i'r grŵp craidd. Dywedodd y cadeirydd mai'r cyflymaf y gallem ddod oddi ar y cynllun fyddai'r adolygiad tri mis a dyna a wnaethom. Beth oedd y diben? Doedd dim wedi newid yn yr amser hwnnw a chefais i ddim cysylltiad â gweithiwr cymdeithasol. Ac yn yr adolygiad nid oedd neb fel petai'n synnu at hynny (Mam).

Absenoldeb dulliau annog gweledol

Codwyd pryderon yn yr arolwg a'r cyfweiliadau am absenoldeb dulliau annog gweledol a ddefnyddir fel arfer wrth ddatblygu cynlluniau. Fel arfer, lle mae awdurdod lleol yn defnyddio dull Arwyddion Diogelwch er enghraifft, byddai cadeirydd y gynhadledd yn ysgrifennu'r cynllun ar fwrdd gwyn yn ystod y gynhadledd, er mwyn ei wneud yn glir i rieni, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol. Gyda chynadleddau fideo a ffôn, nid oedd hyn yn bosibl.

Rydym yn defnyddio dull Arwyddion Diogelwch, felly mae bob amser grid ar y wal sy'n nodi pryderon, beth sy'n gweithio'n dda, beth yw'r cynllun nesaf, ac nid yw hynny'n digwydd mewn cynadleddau. Dim ond un cadeirydd sy'n gwneud hynny ar sgrin gyffredin, felly rwy'n meddwl eto tybed faint mae rhieni'n ei ddeall oherwydd does dim wedi'i nodi ac nid ydynt yn cael copi ffisegol o'r bwrdd hwnnw. Fel arfer, byddent yn cael copi wedi'i argraffu ohono ar ddiwedd cyfarfod go iawn i'w gael a'i ystyried. Felly rhwng cynnal y cyfarfod a rhyddhau cofnodion y gynhadledd, sy'n arafach am fod pobl yn gweithio o gartref, rwy'n meddwl tybed faint o effaith mae'r gynhadledd yn ei chael oherwydd, a dweud y gwir, y cyfan y maen nhw'n ei wneud yw eistedd mewn cyfarfod ac yna dim, does dim byd gyda nhw i fynd gyda nhw (Gweithiwr cymdeithasol).

Yng nghyd-destun y cyfweiliadau, roedd yr ymgysylltu gweledol hwn yn aml yn cynrychioli cefnu ar y dull cyfranogol a anogir yn rhaglen Arwyddion Diogelwch. O ystyried bod dwy ran o dair o'r awdurdodau lleol yn Lloegr yn defnyddio Arwyddion Diogelwch ar ryw ffurf, mae'n bosibl bod gan hyn oblygiadau pellgyrhaeddol (Baginsky et al. 2020). Fodd bynnag nid dim ond y gweithwyr cymdeithasol hynny sy'n defnyddio Arwyddion Diogelwch a oedd yn pryderu bod yr egwyddorion a oedd yn sail i'w gwaith yn cael eu herydu a bod arfer yn dychwelyd i ffyrdd blaenorol o weithio, lle byddent yn 'gwneud' i rieni yn hytrach na gweithio gyda hwy.

Cynlluniau'n para hirach nag arfer

Roedd ychydig o dystiolaeth i awgrymu bod cynlluniau'n para'n hirach oherwydd COVID-19. Nododd nifer fechan o gadeiryddion cynhadledd eu bod wedi estyn cynlluniau oherwydd yr anawsterau ynghylch eu gweithredu, ac roedd sylwadau tebyg gan weithwyr proffesiynol eraill.

Er enghraifft, mewn un achos nid oes asesiad risg wedi'i gwblhau yn y ffrâm amser oherwydd COVID. Mae hyn wedi golygu nad ellir cwblhau'r cynllun, felly nid yw'r unigolyn yn cael cyswllt o hyd ac mae'r teulu'n parhau ar gynllun (cadeirydd cynhadledd).

Yn ogystal, roedd gweithwyr proffesiynol ar draws asiantaethau yn pryderu bod diogelwch plant wedi'i gyfaddawdu gan y cyswllt prin yr oedd gwasanaethau wedi'i gael â phlant, a chan dystiolaeth anecdotaidd o gynnydd esgeulustod cronig neu dymor hir o ganlyniad i gynnal llai o ymweliadau cartref a mwy o ymweliadau rhithwir. O ganlyniad, roedd amharodrwydd i ddod â chynlluniau i ben nes bod sefyllfa fwy normal yn dychwelyd.

Mae'n llawer anoddach gwneud y gwaith gyda theuluoedd am fod cynifer o wasanaethau ar gau. Roedd ymweliadau'n digwydd yn rhithwir felly nid oeddent bob

amser o gystal ansawdd ag ymweliadau wyneb yn wyneb. Mae pethau'n cymryd hirach felly mae plant yn aros ar gynlluniau amddiffyn plant am hirach (Gweithiwr cymdeithasol).

Bu llawer o gamau gweithredu a fyddai fel arfer yn rhan o'r cynllun yn llawer mwy penagored neu ni fu modd eu cwblhau. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys pethau fel mynd at y deintydd (pan oedd deintyddion ar gau) neu gael at waith grŵp. Yn bendant, bu llai o gymorth ar gael i deuluoedd yn ystod cyfnod COVID-19 ac mae hyn wedi cael effaith negyddol arnynt. Rwy'n teimlo hefyd y bu cynlluniau'n para'n hirach am fod pethau'n cymryd hirach i wella (yr Heddlu).

Roedd gwahanol ymagweddau'n cael eu cyflwyno i atal difaterwch ac i osgoi cadw cynlluniau ar waith yn rhy hir – ond mae camau gweithredu fel y rhai a amlinellir isod yn dibynnu ar allu gweithwyr cymdeithasol i wneud y gwaith ychwanegol.

Rydym wedi gwneud asesiadau risg yn dynnach a'u defnyddio'n helaethach, a chynlluniau diogelwch hefyd. Mae'r ddau beth hyn yn rhan o bob cynllun. Mae gwaith ymddygiad amddiffynnol hefyd yn canolbwyntio mwy ar y plentyn. Mae ymweliadau rhithwir yn amlach ac yn amrywio o wythnosol i ddwywaith yr wythnos, yn lle 10 diwrnod (Cadeirydd cynhadledd).

Mewn llawer o awdurdodau, roedd cadeiryddion cynhadledd yn cwrdd yn rheolaidd â rheolwyr tîm a phenaethiaid gwasanaeth i drafod achosion a fu ar gynlluniau amddiffyn plant am naw mis neu ragor i werthuso a oedd y cynlluniau'n gweithio. Mewn rhai achosion, nid oedd gwasanaethau a nodwyd mewn cynllun i blentyn neu rieni wedi bod ar agor yn ystod y cyfnod hwn, a gallai plentyn aros ar y cynllun er mwyn i'r darn hwnnw o waith gael ei gyflenwi.

Mae bellach yn 15 mis ar gynllun ac rwy'n meddwl, o... ond yna rhaid ichi ystyried ein bod wedi cael chwe mis o'r cyfnod clo, a hyd yn oed efallai y bu'r gwasanaethau hynny ar-lein, neu hyd yn oed os oeddent yn ymweld, ni fydd fel ydoedd (Cadeirydd cynhadledd).

Rydym yn bendant wedi bod yn dod â chynlluniau i ben yn ystod y cyfnod hwn, ond rwy'n credu yn bennaf y bu'r rheini'n gynlluniau a fodolai cyn COVID, ac mae rhywfaint o'r gwaith hwnnw wedi'i wneud ac rwy'n credu bod llwybr y plant hynny'n fwy sicr. Ond rwy'n credu, gyda rhai o'r cynlluniau cychwynnol a wnaed yn ystod COVID, y byddai'n anodd a dweud y gwir i ddweud bod y gwaith wedi datblygu neu fod newid wedi digwydd (Cadeirydd cynhadledd).

O safbwynt eiriolwr, dywedwyd bod rhai rhieni'n talu'r pris am sefyllfa nad oedd ganddynt reolaeth arni o gwbl.

Yn eithaf aml, fe welaf nad oes dim o gamau gweithredu'r awdurdod lleol wedi'u cwblhau. Yna pan fyddwch yn y gynhadledd, maen nhw'n argymhell bod y cynllun amddiffyn plant yn parhau ar waith oherwydd y camau sydd heb eu cymryd eto gan weithwyr proffesiynol. Efallai bod y rhieni wedi gwneud popeth y gallant ar gynllun, sy'n eu dadrymuso'n sylweddol, ac ymhlith fy nghleientiaid mae rhieni'n teimlo'n gryf eu bod

yn rhwystredig am eu bod ar gynllun amddiffyn plant o hyd a'i fod newydd gael ei estyn am na fu'r awdurdod lleol yn gallu gweithredu mewn pryd (Eiriolwr).

Barn am y broses ar y cyfan

Mynegodd nifer o gadeiryddion cynhadledd bryderon am achosion lle cwblhawyd asesiadau heb fod gweithiwr cymdeithasol yn cwrdd â'r rhieni na'r plant wyneb yn wyneb. Yn sgil yr effaith ar arfer, soniodd rhai eu bod yn ymyrryd mewn cyd-destun a olygai eu bod yn gwneud penderfyniadau am deuluoedd ar sail gwybod llai nag y buasant yn ei wybod o'r blaen, ond yna'n dod â nhw i'r system amddiffyn plant lle gallent fod yn aros am hirach. Roeddent yn credu ei bod yn bwysig cydnabod bod yr hyn y mae'n bosibl ei gynnig i deuluoedd yn llawer prinnach. Nid oeddent yn beirniadu'r prosesau dan sylw na'r arloesi a ddaeth i'r amlwg—a'r ddau beth hynny'n cael eu hystyried yn well nag unrhyw oedi—ond roeddent yn galw am ddadl ynghylch a oeddent wedi'i gael yn gywir cyn belled â bod cynadleddau dan sylw.

Cyfeiriodd nifer fechan o weithwyr proffesiynol at adolygiadau a oedd wedi dechrau yn eu hawdurdodau, nid yn unig o'r hyn a weithredwyd yn ystod y pandemig, ond hefyd yr hyn y mae'n ei olygu i ddod â theulu i gynhadledd amddiffyn plant yng nghyd-destun y pandemig.

Mae cynadleddau amddiffyn plant yn ddigon anodd i'r rhan fwyaf o bobl, yn weithwyr proffesiynol a gweithwyr cymdeithasol a rhieni a phlant, felly rydym wedi sefydlu (grŵp) 'gorchwyl a gorffen' ar draws ein gwasanaeth ar hyn o bryd i astudio elfennau ohono. Felly gan ddechrau gyda'r sylfaenol, sef sut rydych yn rhannu'r wybodaeth honno am y rhesymau dros fynd i gynhadledd, sut rydych yn strwythuro'r adroddiadau, beth sy'n cael ei gynnwys yn yr adroddiadau, sut mae cynnwys teuluoedd yn well yn y broses o deimlo'n rhan o hynny, yr adeiladau, yr amgylchedd, sut rydyn ni'n defnyddio cynadledda grŵp teuluol, sut mae cynnwys rhieni a phlant yn llawer mwy yn y gydnabyddiaeth fod angen inni fod yn seiliedig ar gryfderau a'u cynnwys wrth wneud y cynllun eu hunain am sut maen nhw'n mynd i gadw eu plant yn ddiogel, yn hytrach na ninnau'n dweud wrthyn nhw beth maen nhw'n ei wneud o'i le drwy'r amser (Gweithiwr cymdeithasol).

6. Myfyrdodau

Bu'r system amddiffyn plant, fel cymaint o'r gymdeithas, o dan straen sylweddol yn sgil pandemig COVID-19. Gwnaethpwyd ymdrech aruthrol i sicrhau bod y systemau a phrosesau a fodolai eisoes yn parhau i helpu i gadw plant yn ddiogel. Roedd rhywfaint o falchder ymhlith y rheini y cyfwelwyd â hwy, yn enwedig ymhlith cadeiryddion cynhadledd a gweithwyr cymdeithasol, am eu bod wedi gallu parhau i gynnal cynadleddau. Er nad oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lawer o brofiad o gyflenwi digidol cyn COVID-19, mae arfer wedi newid yn aruthrol. Cydsyniwyd ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r model gwreiddiol o gynadleddau—lle mae'r holl gyfranogwyr yn yr un ystafell—yn dychwelyd ar ôl y pandemig. Byddai hyn yn newid arfer yn eithaf sylfaenol.

Fformatau'r dyfodol

Awgryma'r ymatebion i'r ymchwil hwn ei bod yn annhebygol y bydd un model sy'n gweithio i bob teulu, ond gall fod yn ddefnyddiol archwilio anghenion a dymuniadau'r teulu a'r gweithwyr proffesiynol dan sylw fesul achos yn hytrach na throi at ddull safonol bob tro. Byddai gofyn am farn teuluoedd am 'leoliad' yn unol â'r ymdrechion i sicrhau eu cyfranogiad mwyaf posibl yn y broses.

Rwy'n credu y bu cynadleddau fideo o fudd yn y cyfamser, ac rwy'n teimlo bod dyfodol iddyn nhw, ond nid yw'n ddull sy'n addas i bawb, ac rwy'n credu y dylai gweithwyr proffesiynol gael y cyfle i benderfynu gyda rhieni ba fformat sy'n gweddu orau iddynt (Nyrs ysgol).

Ar gyfer achosion lle mae rhieni'n wrthwynebus iawn neu lle ceir rhyw rwystr cyfathrebu, mae cynadleddau rhithwir yn datgelu hyn ymhellach - efallai bod rhieni'n cyfrannu llai byth gan wneud cynadleddau'n waeth nag o'r blaen. Fodd bynnag, yn gyffredinol, lle gall rhieni gymryd rhan yn y fformat rhithiol, neu lle cânt eu cefnogi i wneud hynny, maent wedi gweithio'n ddiffwdan. Nid yw'r gynhadledd rithwir yn briodol i bob sefyllfa a theulu. Ni ddywedwn ei bod yn well na gwaeth ar y cyfan, mae'n benodol i bob amgylchiad (Cadeirydd cynhadledd - arolwg).

Wedi dweud hyn, nodwyd bod rhai fformatau'n arbennig o broblemus. Nodwyd amrywiaeth o bryderon am ymgysylltu dros y ffôn yn unig, neu gynadleddau lle mae rhieni ar y ffôn a gweithwyr proffesiynol yn cael eu cysylltu drwy fideo. Pryderwyd bod hyn yn cyfyngu ar allu rhieni i gymryd rhan, dilyn a deall yr hyn a oedd yn digwydd, a'i fod hefyd yn annheg yn y bôn. Mewn modd tebyg, soniwyd bod cyfres o sgysiau gyda gweithwyr proffesiynol ac yna sgwrs ffôn gyda'r rhieni hefyd yn un model a oedd yn cael ei ddefnyddio, a bod hwn yn wahanol iawn i fodel 'cynhadledd'.

Amlygodd yr ymatebwyr y problemau a allai wynebu teuluoedd yn cael at ddyfeisiau digidol priodol. Lle cynhelir cynadleddau 'ar-lein' bydd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol yn ymuno â'r rhain drwy gyfrifiadur wedi'i gysylltu â'r rhyngwyd, ond efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl i deuluoedd, oherwydd efallai na fydd ganddynt y caledwedd, y feddalwedd neu hyd yn oed y cyllid sy'n ofynnol i brynu data i'w ffonau.

Nodwyd heriau gyda rhieni'n ceisio darllen adroddiadau maith ar eu ffonau am nad oeddent wedi cael copi caled. Roedd enghreifftiau o arfer da a rannwyd yn ystod yr ymchwil hwn lle'r

oedd awdurdodau lleol yn cymryd camau i nodi'r mater ac i sicrhau bod rhieni'n gallu cael at yr hyn yr oedd ei angen arnynt. Efallai bydd y dull rhagweithiol hwn yn helpu i liniaru'r cwestiynau tegwch a godwyd gan anghydraddoldeb digidol posibl.

Roedd cynadleddau a gynhaliwyd dros y ffôn neu fideo yn cyflwyno heriau newydd o ran cyfrinachedd. Rhaid adolygu trefniadau a allai ganiatáu, yn anfwriadol, i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol ddeialu i mewn i gynadleddau teuluoedd eraill. Mae tai a rannir, materion gofal plant, a lleoliadau gweithwyr proffesiynol a rhieni sy'n ymuno â galwadau hefyd yn ystyriaethau angenrheidiol yn y cyd-destun hwn. O ystyried y pryderon a godwyd yn yr adroddiad hwn, gallai fod yn ddefnyddiol petai'r trafodaethau cymhennu'n digwydd ar ddechrau cynadleddau gan atgoffa ynghylch presenoldeb eraill yn yr ystafell (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill) a phwysigrwyd trin pob cyfranogwr â'r un parch a fyddai'n cael ei roi petai pawb yn yr un ystafell.

Nodwyd bod rhai ffactorau'n benodol o heriol ar gyfer cynadleddau fideo neu ffôn, ac maent yn pwyntio tuag at ddull wedi'i deilwra mwy gyda mwy o elfennau wyneb yn wyneb. Roedd y rhain yn cynnwys sefyllfaoedd lle pryderwyd y gallai cynadleddau gyda chyfranogiad gartref adael cyfranogwr mewn perygl mewn perthynas â cham-drin domestig, a lle bo gan aelod o deulu anghenion dysgu ychwanegol neu anawsterau cyfathrebu.

Ystyriwyd bod cynadleddau hybrid yn ddewis arall dichonadwy yn lle'r model wyneb yn wyneb traddodiadol a'r cynadleddau ar-lein a ffôn a roddwyd ar waith. Roedd fel petai pob grŵp proffesiynol y cyfwelwyd ag ef yn cydsynio mai'r model hybrid 'oedd y dyfodol'. Byddai hwn yn caniatáu i rai o'r buddion a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr amser hwn-fel galluogi ystod ehangach o weithwyr proffesiynol i fynychu-gael eu crisialu gan alluogi aelodau teulu i elwa ar gyswllt wyneb yn wyneb a mynediad teg at dechnoleg. Fodd bynnag, bydd gweithredu'r model hybrid yn llwyddiannus yn dibynnu ar fuddsoddi yn y dechnoleg ofynnol. Awgrymwyd y dylid ystyried y buddsoddiad mewn perthynas â'r amser a'r arian y byddai pobl yn eu harbed yn teithio, yn ogystal ag amcangyfrif o'r 'cyfraniad o fath arall' a wnaed gan weithwyr proffesiynol a oedd, er na fyddent yn mynychu cynhadledd wyneb yn wyneb, wedi arddangos parodrwyd i ymuno drwy fideo. Ymhen amser efallai bydd hyn yn mynnu datblygu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol.

Sicrhau cyfranogiad ystyrion gan rieni ac aelodau teulu

Mae'r ymchwil hwn wedi amlygu cyn lleied o gysondeb sydd rhwng awdurdodau ac o fewn awdurdodau. Mae hefyd wedi datgelu cyn lleied rydyn ni'n ei wybod am ymatebion rhieni. Nodwyd pryderon difrifol yn yr ymchwil hwn mewn perthynas â heriau ynghylch cynnal diogelwch cyfranogwyr a sylwedyddion, magu a chynnal perthnasoedd, a sicrhau cyfranogiad ystyrion aelodau teulu. Daeth dulliau annog gweledol yn nodwedd allweddol ar gynadleddau mewn llawer o awdurdodau. Mae angen ystyried sut gellir cynnal buddion yr arfer hwn mewn amgylchedd digidol neu led-ddigidol.

Canfu dadansoddiad teirblwydd o Adolygiadau Achos Difrifol 2014–2017 (Brandon et al. 2020) mai:

Un thema fynych ymhlith adolygiadau sy'n nodi arfer da yw ansawdd y berthynas â theuluoedd. Perthynas dda â theuluoedd yw'r prif gyfrwng ar gyfer arfer amddiffynol pan fydd yn seiliedig ar amgylffrediad cadarn o gyd-destun, amgylchiadau, a rolau a

pherthnasoedd y teulu yn fodd effeithiol o reoli cymhlethdod risg cyfansawdd a chronnus dros amser (t.80).

Mae'r pandemig wedi herio gallu gweithwyr proffesiynol i gael 'amgyffrediad cadarn', ac mae'n amlwg yr aflonyddwyd ar y gallu i fagu perthynas â rhieni. Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio ag ystyried arfer cynadleddau blaenorol yn rhy optimistaidd. Nid yw'r heriau i sicrhau cyfranogiad ystyrllon gan rieni yn heriau newydd. Bron 25 mlynedd yn ôl, darparodd Corby et al. (1996) ddisgrifiad treiddgar o'r gwrthdaro buddiannau rhwng rhieni, gweithwyr proffesiynol, a phlant, a dadleuodd o blaid newidiadau yn y system cynhadledd amddiffyn hlant i gyflawni cyfranogiad mwy moesegol ac effeithiol. Yn y blynyddoedd ers hynny, mae polisi ac arfer wedi canolbwyntio ar fuddion cyfranogiad cynyddol gan rieni, ond mae heriau wedi parhau. Awgrymodd ymchwil diweddarach fod rhieni'n credu bod eu cyfranogiad yn seiliedig ar symboleiddiaeth (Thorpe, 2007) a daeth Lutman-While (2018) i'r casgliad, er bod *Working Together* yn tybio bod 'presenoldeb' yn golygu 'cyfranogiad, fod ei hymchwil yn arddangos nad yw presenoldeb rhieni yn y cyfarfodydd hyn yn arwain at eu cyfranogiad effeithiol.

Yn yr astudiaeth bresennol hon, roedd enghreifftiau o rai ymarferwyr a weithiodd yn galed i sicrhau'r cyfranogiad gorau posibl. Lle rhoddwyd cymorth, ystyriwyd ei fod wedi cael effaith gadarnhaol. Mae hyn mewn cyferbyniad eithaf llym â rhai o'r disgrifiadau o'r sefyllfa lle'r oedd rhieni'n ymuno â chynadleddau heb gymorth o'u cartrefi eu hunain. Roedd tystiolaeth fod y dyhead i gadw'r system 'ar y trywydd cywir' mewn rhai achosion wedi peryglu tegwch a pharch efallai.

Codwyd pryderon hefyd am effaith barhaus COVID-19 ar y system amddiffyn plant a bywyd teuluol. Mae cyfyngiadau COVID-19 wedi arwain at leihau argaeledd gwasanaethau a weithiodd ochr yn ochr â gofal cymdeithasol plant i gefnogi rhieni a theuluoedd. Roedd pryder fod ffyrdd o weithio o bell ac absenoldeb corfforol gweithwyr proffesiynol yn golygu bod rhai pryderon wedi'u colli-ac efallai'n parhau i gael eu colli.

Yr angen i ddadlau, adolygu, a myfyrio

Mae'n hanfodol inni gymryd yr amser yn awr i aros, myfyrio ac adolygu. Datgelodd yr ymchwil hwn lawer a oedd yn gadarnhaol am ffyrdd newydd o weithio – yn enwedig i weithwyr proffesiynol – ond codwyd rhai pryderon difrifol am gyfrinachedd, diogelwch ac ymddygiad, a'r gallu i sicrhau cyfranogiad ystyrllon rhieni ac aelodau teuluol. Arweiniwyd gweithwyr proffesiynol a rhieni i gwestiynu tegwch cynadleddau amddiffyn plant ar yr adeg hon a myfyrio ynghylch yr hyn a gollwyd neu a aberthwyd efallai mewn ffyrdd newydd o weithio.

Er bod cynadleddau amddiffyn plant yn gyfarfodydd aml-asiantaeth, a phob asiantaeth yn rhannu cyfrifoldeb am amddiffyn plant, gofal cymdeithasol plant yw'r asiantaeth arweiniol a gweithwyr cymdeithasol yw'r gweithwyr proffesiynol arweiniol. Mae myfyrdod beirniadol wedi tybio pwysigrwydd cynyddol mewn gwaith cymdeithasol (D'Cruz et al. 2007; Ryding et al. 2018). Mae'r ymchwil hwn wedi cwestiynu faint rydyn ni'n ei wybod am farn rhieni a'u hymatebion i'r newidiadau a ddigwyddodd a chynadleddau amddiffyn plant ar y cyfan. Yn aml, roedd y farn broffesiynol am lwyddiant pethau, a'u hargraff o deimladau rhieni am bethau, yn gwrthgyferbynnu'n gryf â thystiolaeth o'r rhieni eu hunain. Mae'n hollbwysig cynnal ymchwil i archwilio ymatebion, ymgysylltiad a chanlyniadau i rieni yn fanylach, yn

enwedig o ystyried yr amrywiadau yn y ffyrdd y mae cynadleddau wedi'u cynnal, ac yn cael eu cynnal.

Heb os, bydd COVID-19 yn gadael ei ôl ar arfer cynadleddau amddiffyn plant am fod elfennau yr oedd llawer o'r rheini y cyfwelwyd â hwy yn credu eu bod yn werth eu cadw, ond bod hefyd elfennau a oedd yn peri gofid. Y blaenoriaethau uniongyrchol ddylai fod crisialu ehangder barn rhieni, meithrin ymhellach ymglymiad cynyddol gweithwyr proffesiynol eraill, ac archwilio ymhellach ansawdd asesiadau, cynlluniau a chanlyniadau. Mae'n holl bwysig inni gael hwn yn iawn i blant ac i deuluoedd.

Cyfeiriadau

- Attride-Stirling, J. (2001). Thematic networks: an analytic tool for qualitative research. *Qualitative Research*, 1, 3, 385–405.
- Baginsky, M., Driscoll, J., Purcell, C., Hickman, B. a Manthorpe, J. (ar ddod). *Schools and Multi-agency Working for the Protection and Safeguarding of Children*. Bryste: Policy Press.
- Baginsky, M., Ixer, G. a Manthorpe, J. (2020). Practice frameworks in children's services in England: An attempt to steer social work back on course? *Practice*, DOI: 10.1080/09503153.2019.1709634.
- Baginsky, M. a Manthorpe, J. (2020a). *Managing through COVID-19: The Experiences of Children's Social Care in 15 English Local Authorities*. Llundain: Coleg y Brenin, Llundain.
- Baginsky, M. a Manthorpe, J. (2020b). *Keeping Children and Young People Safe During a Pandemic: Testing the Robustness of Multiagency Child Protection and Safeguarding Arrangements for Schools*. Llundain: Coleg y Brenin, Llundain.
- Brandon, M., Sidebotham, P., Belderson, P., Cleaver, H., Dickens, J., Garstang, J., Harris, J., Sorensen, P. a Wate, R. (2020). *Complexity and Challenge: A Triennial Analysis of SCRs 2014–2017 Final Report*. Llundain: Yr Adran Addysg.
- Chand, A. (2007). Do you speak English? Language barriers in child protection social work with minority ethnic families. *The British Journal of Social Work*, 35, 6, 807–821.
- Corby, B., Millar, M. a Young, L. (1996). Parental participation in child protection work: Rethinking the Rhetoric. *The British Journal of Social Work*, 26, 4, 475–492.
- D'Cruz, H., Gillingham, P. a Melendez, S. (2007). Reflexivity, its meanings and relevance for social work: A critical review of the literature. *The British Journal of Social Work*, 37, 1, 73–90.
- Lutman-White. E. (2020). Child neglect and social work practice: (re)producing institutional realities in and through interaction. *Traethawd ymchwil PhD heb ei gyhoeddi: Prifysgol Warwick*.
- Muench, K., Diaz, C. a Wright, R. (2017). Children and parent participation in child protection conferences: a study in one English local authority. *Child Care in Practice*, 23, 1, 49–63.
- Munro, E. (2011). *The Munro Review of Child Protection: Final Report. A Child-Centred System*. Llundain: Yr Adran Addysg.
- Ryding, J., Sorbring, E., a Wernersson, I. (2018). The understanding and use of reflection in family support social work. *Journal of Social Service Research*, 44, 4, 494–508.
- Thorpe, R. (2007). Family inclusion in child protection practice: Building bridges in working with (not against) families. *Communities, Families and Children Australia*, 3, 1, 4–18.
- Turnell, A. ac Edwards, S. (1999). *Signs of Safety: A Solution and Safety Oriented Approach to Child Protection Casework*. Efrog Newydd: W. W. Norton and Company.